# Y DINESYDD

Ebrill 2022 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 467 £1.20






**Codi Arian i Wcráin**

**Plant Treganna tud. 2 Côr Caerdydd tud. 8**

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Hefin Mathias**

***Golygydd Mai:***
***Bríd Price***

Cyfraniadau erbyn 27 Ebrill at:
bridgprice@yahoo.co.uk
07798 895908

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau at:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Codi Arian i Wcráin



Ar ddydd Sul yr ugeinfed o Fawrth fe godon ni arian at yr Wcráin. Fe wnaethon ni gynnal stondin gacennau a diodydd, paent wyneb a stondin lyfrau ym Mharc Fictoria yn y clwb Pêl Foli.

Roedd y tywydd yn braf felly mi roedden ni'n lwcus i gael llawer o bobl i gyfrannu a chefnogi. Fe godon ni dros £1600! Rydyn ni'n mynd i roi'r arian at DEC ac at waith Cardiff for Ukraine.

Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gefnogi ar y diwrnod, cyfrannu cacennau a rhoi arian at yr achos pwysig yma.

Osian, Gwynfor ac Elliw
(Ysgol Treganna, Caerdydd)

**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd**

**@DinesyddCdydd ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina

# Colofn G.R.

*"Dan ni'n byw mewn cyfnod cythryblus"*



"Nawr lanciau rhoddwn glod/Y mae'r Gwanwyn wedi dod/Y Gaeaf a'r oerni a aeth heibio" meddai'r hen gân. Ond gwaetha'r modd dydy'r Gaeaf ddim wedi dod i ben yn Wcráin wrth i bobl y wlad orfod wynebu grym Rwsia wrth iddyn nhw ymosod ar y wlad a chreu dinistr difrifol a thrwy hyn achosi i filiynau o bobl ffoi i wledydd cyfagos.

Odd Vladimir Putin yn meddwl y byddai'n hawdd gorchfygu'r Wcráin ond gwnaeth gamgymeriad mawr gan i'r Wcraniaid, dan arweiniad ysbrydoledig Volodymyr Zelensky, ymladd yn ôl a chreu problemau dirif i'r fyddin Rwsiaidd.

Dros y canrifoedd mae Wcráin wedi wynebu llawer o gyfnodau cythryblus. Ar un adeg bu'n rhan o'r Undeb Sofietaidd ac yn ystod cyfnod Stalin cafwyd argyfwng difrifol pan gafwyd newyn mawr yn y wlad a Stalin yn gadael i bobl Wcráin farw yn eu miliynau heb godi bys i'w cynorthwyo.

Datgelwyd creulondeb Stalin i'r byd gan newyddiadurwr ifanc a dawnus gynt o'r Barri o'r enw Gareth Jones. Fe'i llofruddiwyd yn 1935 ar drothwy ei ben-blwydd yn 30 oed a chredir mae'r Rwsiaid a drefnodd hynny. Mae perthynas i Gareth Jones wedi cyhoeddi cofiant iddo ac mae ffilm amdano wedi bod ar y teledu ac ym mis Mai eleni. Cyhoeddir llyfr arall amdano yn dwyn yr enw *The man who knew too much* gan y newyddiadurwr Martin Shipton.

Yn rhyfedd iawn bu mam Gareth Jones, sef Annie Gwen Jones gynt o Ferthyr Tudfil, yn Wcráin am gyfnod yn gofalu am wyresau John Hughes y diwydiannwr odd hefyd o Ferthyr, a sefydlodd Waith Dur yn ardal y Donbas yn Wcráin yn 1869 ac aeth nifer o deuluoedd o Gymru draw i weithio yn y gwaith, a thyfodd tref o'i gwmpas. Fe'i enwyd Hughesovka i ddechrau; yna ar ôl y Chwyldro Comiwnyddol yn 1917 newidiwyd yr enw i Stalino. Mae enw arall arni erbyn heddiw, sef Donetsk, dinas sydd yn y newyddion yn y brwydro yn y wlad ar hyn o bryd.

Tybed faint ohonoch sy'n mwynhau'r gyfres *Cynefin* ar S4C sy'n ymweld â gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Yn ddiweddar ymwelwyd â phentre Beddgelert a chafwyd eitem am y tŷ fferm Oerddwr sy uwchben y pentre sy â chysylltiadau â'r bardd T.H. Parry Williams. Blynyddoedd yn ôl byddai teulu'r Oerddwr yn paentio enw'r ffarm mewn gwyngalch ar graig uwchben y tŷ ac odd i'w weld yn glir o'r ffordd fawr odd yn arwain i'r pentre. Yn ystod yr eitem am y pentre dangoswyd darn o ffrâm drws un o'r cytiau allanol hefo llythrennau T.H. Parry Williams wedi eu carfio arno a hynny yn 1917.

Blynyddoedd yn ôl bellach bues i yn Oerddwr hefo criw o ddysgwyr Cymraeg odd ar Gwrs Cerdded y Mynyddoedd yng Nghanolfan Plas Tan Bwlch ym Maentwrog dan arweiniad y diweddar Merfyn Williams, Pennaeth y Ganolfan ar y pryd a minnau yn diwtor ar y Cwrs. Ar un o'r teithiau daethon ni i Oerddwr odd yn wag ar y pryd a buon ni'n crwydro o gwmpas y ffarm nes i un o'r dysgwyr ddwyn ein sylw at ffrâm drws ar un o'r cytiau ar fuarth y ffarm hefo campwaith y bardd arni! Ganwyd T.H.P.W. yn 1887 a felly odd o'n 30 oed yn cerfio ei lythrennau ar y ffrâm drws! Gobeithio bydd modd arddangos y darn drws hwn yn ei hen gartre yn Rhyd-ddu.

Yn ddiweddar ymddangosodd llyfr o'r enw *Hanes yn y tir* gan Elin Jones yn olrhain hanes cenedl y Cymry o'r cychwyn hyd heddiw. Anelwyd y llyfr yn bennaf ar gyfer plant a phobl ifanc y wlad ac yn ôl a ddeallaf bydd pob ysgol yng Nghymru yn derbyn copi o'r llyfr. Mae diwyg y llyfr yn fodern hefo llawer o luniau ac yn hynod ddarllenadwy i bobl hŷn heb sôn am blant a phobl ifanc. Mae'r llyfr wedi cyrraedd rhestr fer cystadleuaeth Tir na n-Og a gynhelir yn flynyddol. On i dipyn bach yn siomedig nad oedd sôn yn y llyfr am Dic Penderyn y Siartiwr a grogwyd ar gam am saethu milwr ac er bod tudalen am fudiad yr Urdd odd dim sôn am Fudiad Meithrin a Mudiad Merched y Wawr sef dau fudiad arall hynod o bwysig yn y frwydr i sicrhau dyfodol i'r iaith.

Bydd cystadleuaeth Rygbi'r Chwe Gwlad wedi hen ddod i ben erbyn i'r rhifyn hwn o'r *Dinesydd* ddod i'r fei â Chymru yn anffodus ddim wedi gwneud cystal eleni. Bu dau siaradwr Cymraeg yn chwarae yn y gystadleuaeth eleni ond nid yn nhîm Cymru! Bu Harry Randall yn chwarae yn nhîm Lloegr a Stephen Varney yn chwarae yn nhîm yr Eidal! Daeth rhieni Harry i fyw yng Nghymru pan odd o'n bedair oed a bu'n ddisgybl yn Ysgol Uwchradd yr Aman a Choleg Llanymddyfri tra aeth Stephen i Ysgol Uwchradd y Preseli yng Nghrymych ac yntau o dras Eidalaidd un ochr o'i deulu!

Dan ni'n byw mewn cyfnod cythryblus rhwng yr holl helyntion ynglŷn â BREXIT ac yna dyfodiad y Pandemig sy wedi troi ein bywydau wyneb i waered a rwan y rhyfel anghyfiawn yn Wcráin sy'n hoelio sylw'r byd mewn gwirionedd ac anodd gwybod beth fydd pen draw yr holl derfysg a hynny ar drothwy ein drws megis, ond un peth sy'n sicr oherwydd ffolineb Putin yn mynd i ryfel, bydd gwlad Rwsia a'i harweinwyr yn ysgymun yng ngolwg y byd am flynyddoedd lawer i ddod. Tan y tro nesa byddwch wych a mwynhewch y Gwanwyn er gwaethaf popeth!

# Merched y Wawr Bro Radur

Ar nos Fercher 2 Mawrth, siaradodd Emma Berry o Benarth gyda ni am gefndir elusen Achub y Plant, a'i thaith i India yn 2019 fel rhan o'i gwaith fel gwirfoddolwr ers 2006.

Er gwaethaf cyfnod y clo, bu cangen Penarth yn weithgar yn codi arian, gan ymuno ar Zoom â changhennau eraill ar draws Cymru i drefnu gweithgareddau megis rhedeg ar rannau o lwybr yr arfordir.

Mae Emma Berry a'i chydweithwyr yn bwriadu rhedeg stondin yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron eleni. Bwriadant werthu planhigion a bylbiau i'w plannu er budd yr elusen, ac roedd Emma'n agored i syniadau aelodau'r gangen hon o Ferched y Wawr.

Cawsom hanes Eglantyne Jebb a ddechreuodd yr elusen ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Clywsom iddi gael ei geni yn Ellesmere, Swydd Amwythig, ac iddi dreulio sawl gwyliau yn un o fythynnod ei thad cyfoethog yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant. Pan oedd yn byw yn Llundain, lle roedd yn athrawes, daeth yn eiriolwr cymdeithasol gan chwarae rhan allweddol adeg Streic y Glowyr a'r Streic Gyffredinol yng nghanol y dauddegau. Brwydrodd i gael llaeth am ddim i blant ysgol, a chysylltwn ei henw â'r Datganiad am Hawliau Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant.

Cawsom weld y daith i Rajasthan a Delhi, yng ngogledd-orllewin India, drwy gyfres o luniau a dynnwyd adeg y daith yn 2019. Soniwyd am y llygredd yn yr awyr a achoswyd gan ffermwyr oedd yn llosgi cnydau, a hynny yn gymysg a'r traffig trwm, gan beri bod gwisgo mygydau'n angenrheidiol. Gwelsant sawl buwch yng nghanol yr hewlydd, gan fod yr anifail hwnnw'n cael ei ystyried yn sanctaidd.




Calondid wedyn oedd gweld merched ifanc yn rhan o brosiect mewn Canolfan Iechyd a drefnir ac a ariennir gan Achub y Plant er mwyn eu helpu i osgoi priodas plant. Yma maent yn dilyn cyrsiau gwnïo, teipio a gweinyddiaeth yn hytrach nag ildio i'r pwysau i briodi yn ifanc, weithiau mor ifanc â 12 oed. Dyma gynnig llwybr amgenach i'r merched ifanc, ac roedd gweld y llawenydd yn eu hwynebu yn adrodd cyfrolau. Gwelsom luniau o'r Ganolfan Iechyd sy'n lle diogel i'r merched gael cyngor, ac mae rhif *Childline* yn brysur iawn yn yr India gyda chynrychiolydd yr elusen yn eu cefnogi.

Gwelwyd Ysgol Kasturba Gandhi, wedi'i henwi fel sawl ysgol arall ar ôl gwraig Gandhi. Dyma ysgol breswyl yr ail gyfle, lle roedd y merched, er yn meddu cyn lleied o eiddo, yn amlwg yn ddiolchgar am gael addysg fyddai'n eu galluogi i osgoi tlodi yn y dyfodol.

Diolchwyd i Emma am ein goleuo, a gobeithiwn allu cadw mewn cysylltiad â'i hymgyrchoedd lleol.

*Gwen Emyr*

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

**Dathlu Gŵyl Ddewi**

Daeth nifer dda ynghyd dan arweiniad Judith Poulson i ymgymryd a thaith o amgylch Rhiwbeina gan arwain amryw i fannau na welwyd o'r blaen. Mwynhawyd y daith yn fawr a'r tywydd yn garedig. Dyma'r tro cyntaf i sawl un gyd-gerdded ag eraill a chael cyfle i gymdeithasu a sgwrsio. Pan gyrhaeddodd pawb yn ôl i Gapel Bethel, fe'n croesawyd gan ein cyd-aelodau ac fe gafwyd paned a the bach yng nghwmni ein gilydd. Diolchodd ein Cadeirydd Shirley Williams i bawb am y cymorth wrth drefnu'r achlysur ac i baratoi'r bwyd.



*Beth Semmens a Shirley Williams*

Ar Nos Lun Mawrth yr 21 parhawyd gyda'r Dathlu pan gyflwynodd ein Cadeirydd Shirley Williams y delynores Beth Semmens i'r gynulleidfa. Soniodd mai merch o'r Eglwysnewydd yw Beth ac wedi mynychu ysgolion Melin Gruffydd a Glantaf cyn mynd ymlaen i astudio'r delyn ymhellach dros Ewrop. Erbyn hyn mae Beth yn fam i 3 o blant, yn byw ym Mhenarth, ac yn cadw'n brysur iawn gyda sawl digwyddiad cerddorol. Dywedodd Beth ei bod hi'n edrych ymlaen yn fawr at Gyngres Telynau'r Byd a gynhelir yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf, ac anogodd bawb i fynychu'r Ŵyl honno. Mwynhawyd yr arlwy cerddorol yn fawr iawn, yn arbennig gan mai dyma'r tro cyntaf i sawl un fwynhau cerddoriaeth fyw ers dwy flynedd, a beth allai fod yn well na sain y delyn i ddathlu Gŵyl Ddewi. Diolchwyd i Beth ar ein rhan gan Beryl Jenkins, a diolchodd yn arbennig am ein swyno i fan arall o sŵn y byd a'i broblemau.

# Colofn Natur

## *Caerdydd Cyfnod y Miocene*



**Gethin Jenkins-Jones**

Fis diwethaf aethom am drip i Gaerdydd yn ystod cyfnod yr Oligocene - byd o fforestydd agored, hinsawdd sych a thymeredd cymharol fwyn. Fe gynhesodd dipyn bach wrth iddo orffen tua 23 miliwn o flynyddoedd yn ôl, ond ni ddaeth yr amodau trofannol erioed eto i ddominyddu cyfandiroedd hemisffer y gogledd. Ond, i gymharu â'n hinsawdd heddiw, roedd yn sicr yn hyfryd o dwym, felly gadewch i ni ddianc eto o'r oerfel i fynd i'n cyrchfan nesaf - y Miocene.

Mae'n brynhawn rhyw 15 miliwn o flynyddoedd yn ôl, ac mae'r haul cryf yn brwydro'r cymylau i ddanfon ei phelydrau atom. Rydym yn camu allan i goedwig sydd ychydig yn fwy trwchus na'r Oligocene, gyda digonedd o gysgod rhag ofn byddwn eisiau hoe nes ymlaen o'r gwres. Llawryfau (laurels) yw'r rhan fwyaf o'r coed o'n cwmpas, a'u canghennau troellog wedi'u cuddio'n rhannol tu ôl i siwmper werdd o fwsogl. Mae 'na goed derw hefyd yn eu mysg, a henaint ambell un i'w weld yn ei risgl crychog. Clywn ganu swynol ambell aderyn o'r canopi, ond y prif beth sy'n denu'n sylw heddiw yw sŵn rhuthro dŵr gerllaw. Cerddwn at ochr afon gymharol lydan ac, er bod hi'n ddwfn, mae purdeb y dŵr yn ein galluogi i weld hyd at y gwaelod caregog. Mae'n edrych yn ddigon deniadol i ni nofio ynddi, er efallai y dylem fod yn wyliadwrus rhag ofn bod anifeiliaid peryglus gerllaw. Nid ydym wir angen peiriant amser i weld yr afon hon - hon yw'r Taf, er bydd y llif yn esblygu'n barhaol cyn iddi gymryd ei chwrs presennol. Dilynwn hi am ychydig i weld pa anifeiliaid sy'n cael eu denu iddi.

Yn ystod canol y Miocene gwelwyd yr amrywiaeth fwyaf o famaliaid erioed, ac rydym yn sicr yn medru credu hynny. Ar ôl cerdded tua hanner milltir mae'r goediwg yn agor at orlifdir, sy'n ein galluogi i edrych dros ardal eang trwy ein binocwlars. Yn gyflym mae ein hadrenalin yn dechrau rhuthro wrth i ni sylwi ar y doreth o anifeiliaid sydd wedi ymgasglu yma i bori ar y blodau a'r glaswellt. Mae 'na grwpiau o hynafiad ceirw, ceffylau, rheino a gwartheg yn bwydo, efo eraill yn torheulo yng ngwres yr haul. Mae teulu o foch cynnar i'w weld yn trotian yn ôl i'r goedwig, ac mae Chalicothere - anifail fel ceffyl â dwylo! - yn cerdded i'r dŵr i yfed. Yng nghanol yr afon mae un o hynafiaid yr arth yn chwilio am bysgod, ac yn ymestyn yn agos ato mae argae afanc sydd, o bosib, yn gyfrifol am greu cynefinoedd y gorlifdir yma. O ran adar, mae 'na hwyaid a chrychydd i'w gweld gerllaw a, rhwng y mamaliaid, mae nifer fawr o bili palod a byddin o wenyn yn symud ar hyd y blodau fel haen denau o niwl. Am olygfa hyfryd!


***Chalicothere***



Ond mae'r uchafbwynt eto i ddod. Yn camu o'r goedwig mae deinotherium yn ymuno â'r parti. Un o hen berthnasau'r eliffant, mae hwn yn gawr o'i gymharu â'i gyfoedion.

Mae'r eliffant hwn yn hynod o ryfeddol gan fod ei ysgithrau (tusks) yn troelli yn ôl at ei hun. Mae'n rhyfedd meddwl bod y chwistlen eliffant fach (elephant shrew), anifail maint llygoden welsom ar ein trip i'r Paleocene dros 40 miliwn o flynyddoedd yng nghynt, bellach wedi esblygu i fod yn frenin y goedwig. Rhyfeddod byd natur! Ar ôl y Paleocene fe wnaeth y teulu hwn oroesi yn Affrica, ond pan darodd y cyfandir ag Asia 19 miliwn o flynyddoedd yn ôl dychwelodd eu disgynyddion yn ôl i dir Ewrop fel cewri anferth.

***Deinotherium***



***Lluniau: Laura Giles***

Roedd y Miocene yn gyfnod hynod o hardd ac, ar ei ddiwedd, lledaenodd y glaswelltiroedd o'r gorlifdiroedd gan droi rhannau o'r byd yn safana. Parhaodd y duedd gyffredinol o oeri, a dechreuodd rhewlifoedd parhaol ymddangos ar y pegynau. Beth oedd yn gyfrifol y tro hwn? Yn ystod y Miocene gwelwyd codiad cyflym llawer o ardaloedd mynyddig y byd, fel yr Himalyas ar Alpau. Wrth iddynt godi, dros gyfnod hir newidiodd symiau sylweddol o garreg silicad i garbonad gan y gwynt ar glaw, gan ostwng lefelau carbon deuocsid yr atmosffer. Ond gwelwyd rheswm mwyaf yr oeri yn ystod y cyfnod nesaf, y Pliocene. Bant â ni yna nesaf te!

# Bwytai Merch y Ddinas

## "O Fwyd y Stryd i Fwytai Clyd"

Lowri Haf Cooke



Beth wnaethoch chi yn ystod mis Mawrth pan wenodd yr haul ar y ddinas? Nes i neidio ar gefn fy meic, a gyda'r gwynt yn fy nghwrls es i chwilota am damaid i fwyta! Yn amlwg nes i ragor – gweithio, detio, rhedeg, nofio, joio cwmni teulu a ffrindiau – ond ar gyfer y golofn hon, rhaid cadw'n llygaid a nghlustiau ar agor am benawdau byd bwytai Caerdydd a'r Fro.





Wedi fy ymweliad ym mis Chwefror â bwyty Sopra 73, clywais adroddiadau ffafriol iawn am Gaffi Lab yn yr Eglwys Newydd. Braf hefyd oedd gweld bar Vermut (drws nesaf i Curado) yn ail-agor; galwch am lymaid, a sgwrs gyda Llew, y Cymro Cymraeg tu ôl i'r bar. A bu cyffro mawr yn Nhŷ Pwmp, y Barri, ar achlysur agoriad Alium – bwyty newydd Antonio Simone, gynt o'r Humble Onion yn Ninas Powys. Edrychaf ymlaen i ymweld y mis hwn; mae'r 'macaroni a chaws' boch yr ychen yn swnio'n anfarwol!

Yn damaid i aros pryd yn ystod mis Mawrth, fe wnes i droi at fy rhestr 'fwced' ddinesig; y rhestr fythol- gynyddol o fwytai anibynnol sydd wedi agor yn ystod y pandemig. Fy ngorchwyl gyntaf felly oedd taith o Barc y Rhath i Barc Buddug – a hen bryd hefyd..

Mae'n teimlo fel oes ers i gwmni byrgers Ansh agor ei drysau ym mis Tachwedd 2020. Fe sefydlon nhw fwyty dros-dro cyn hynny yn nhafarn St Canna, ger canolfan Chapter. Ar gynnig oedd rhestr o fyrgyrs ag enwau chwedlonol – Blodeuwedd, Grav, T Llew Jones, a Barti Ddu yn eu plith Roedd yn gam hyderus ymlaen i'r perchennog Aled Hills a Sara ei wraig, wedi llwyddiant busnes y teulu, Hills – *diner* poblogaidd ar gyrion Aberhonddu. Rhaid dweud i mi sawru sawl byrger gwych yno, tra'n teithio ar hyd yr A470. Felly bu cynnwrf mawr am y cydweithrediad newydd, dinesig, â Shaun Jones o gwmni cig Oriel Jones. Hynny wrth gwrs, a dyluniadau'r byrger gan Pete Fowler, y cynllunydd hynod cŵl a chanddo berthynas faith a band lleol Super Furry Animals.

Bron i ddwy flynedd felly ers i'r busnes lansio yn y ddinas, fe es i am 'ansh' o 'Fyrger Ansh', ger Parc Fictoria. A'r cwestiwn cyntaf i'm taro wrth i'm dannedd suddo i'r byrger oedd 'pam nes i aros cyhyd i gael profiad mor wych'?! Digon gwir, roedd yr haul yn tywynnu ar yr iard gefn, a ges i groeso cynnes iawn gan Sara. Ond sôn am gig blasus, gan gynnwys bacwn a stecen eidion o fferm Llygadenwyn ger Llanybydder, caws cryf Eryri a saws 'Bry-becue' lleol Huw Bryan. Ddim yn aml ga i fyrger – rhaid i'r profiad fod o safon – a gyda sglodion, a chwrw euraid Tiny Rebel daeth y bil i £25. Gyfeillion, roedd werth bob ceiniog. A fydd na dro nesaf? Yn nes at yr haf, gobeithio, i gael profi byrger tymhorol Owain Glyndŵr, yn cynnwys cig eidion Waguy Llygadenwyn, cloron (truffle) Cymreig, a chennin wedi'i piclo. Chwedlonol!

Cwmni arall 'bwyd y stryd' wnaeth arallgyfeirio yn ystod y pandemig wnaeth fy nenu i Heol Woodville, y Waun Ddyfal. Llongyfarchiadau anferthol i Ruth a Roger Hanson, ar agor eu busnes 'brics a mortar' Kafe Makasih, sy'n gweini seigiau Malaysiadd â blas syfrdanol. Wedi ymweliad â Singapore i nodi pen-blwydd eu priodas yn 10 oed yn 2017, gadawodd y ddau, sy'n wreiddiol o'r Coed Duon, eu gyrfaoedd mewn technoleg gwybodaeth, i ddilyn eu hangerdd yn y maes coginio a lletygarwch. A dros y 5 mlynedd diwethaf, mae'r teulu (gan gynnwys eu tri o blant) wedi profi 'rollercoaster' go iawn, rhwng ennill gwobrau nodedig a goresgyn heriau'r pandemig. Profodd 'rotis' (crempogau sawrus) y teulu yn eithriadol o boblogaidd, mewn marchnadoedd bwyd y stryd, gan gynnwys ardal y Rhath a Gwyl Fwyd Sain Ffagan (a Digbeth a Llundain!). Toc cyn y pandemig, roedd eu fan amryliw Eddie, yn bresenoldeb trawiadol ger bar yr Academi yn y Barri. Ond eu breuddwyd oedd agor caffi – mae Ruth yn giamstar ar ofalu am eraill – a phan gaewyd caffi yr Early Bird yn gynharach eleni, cododd y cyfle, ac aethon nhw amdani.

Ges i groeso Cymraeg gan Ruth ar fy ymweliad un p'nawn Sadwrn – ymweliad llawer rhy frysiog, a dweud y gwir, ar fy ffordd i wasanaeth coffa. Bydda i'n bendant yn ôl am orig mwy hamddenol, oherwydd diolch i'r tim cyfan, crewyd argraff arbennig. Er wedi dweud hynny, ges i gyfle i lowcio fy nghinio – prif gwrs sawrus, a phwdin hefyd! Mae'r brecwast Cymreig yno



mae'n debyg yn hynod boblogaidd, ac ar werth ar y cownter roedd cacennau cri, mam Ruth, Thelma. Ond roeddwn i yno i flasu eu clasur - y roti cyw iâr adnabyddus (£8.50). Afraid dweud, mae cynnwys y cytew gwobrwyol yn gwbl gyfrinachol! Mam bach, am gyfuniad o flasau; roedd y crempog 'paratha' fel clustog ar dafod, tra cynigodd y cynhwysion crenshlyd enfys gyfan o brofiadau. Cyw iâr wedi'i ffrio, tsili, coriander, cucumer a chabaits coch 'di piclo, i ddenu dŵr i'r dannedd. Ac yna, i dawelu'r dyfroedd, taeniad da o hufen raita. Yfais de wedi'i rewi blas lemwn a granila (£2.50), ac amhosib oedd gwrthod pwdin - roti banana, caramel a mango (£6), sydd yn frecwast arall hynod boblogaidd yno!

'Diolch' yw ystyr 'Makasih' – neu 'Teri Makasih' - yn yr iaith Malay. A 'Teri' bellach yw enw llun y mwnci ar y wal amryliw, yr un lliwiau ag 'Eddie' y fan a oedd yn lwyfan i'w llwyddiant cynnar . A rhaid dweud, ro'n i'n ddiolchgar tu hwnt i Ruth am y croeso, ac i'r teulu cyfan fynd ati i wireddu ei breuddwydion. Wyddoch chi beth, wrth i mi deipio'r geiriau hyn, mae bron yn amser cinio. Digon o amser i neidio ar y beic, i alw am roti arall i ginio!

**Kafe Makasih, 38 Heol Woodville CF24 4EB; 07483342760**

***Bwytai Cymru* a *Canllaw Bach Caerdydd*, Lowri Haf Cooke, Gwasg Gomer, £9.99 yr un**



## EISTEDDFOD LLANFIHANGEL-AR-ARTH 2022

Llongyfarchiadau mawr i Hannah Roberts ar ei llwyddiannau yn yr eisteddfod uchod eleni. Tudur Dylan Jones oedd y beirniad yn y cystadleuthau barddonol a chipiodd Hannah y gadair ac ennill ar y gerdd rydd.

Dyma'r gerdd a enillodd y gadair iddi. Mae'r gerdd rydd ar dudalen 24**.**



### CYSGOD

Mewn cwpan o gwm,
mewn cylch o gysgod,
mae llan yn llechu.

Yma,
yn y fangre hon,
drwy lygaid lliwgar,
mae golau yn chwarae gêm.
Pelydrau a'u llafnau
yn gwyro
i greu ei gwarel o gaddug.

Yn uchel ar ei echel,
uwchben,
yn ddyrchafedig,
yn y canol ,
mae cerflun,
a'r haul mwyn ar aliwminiwm.
Yma,
mae'r Epstein,
a'u Grist yn ei ogoniant,
dwy gledr yn agored.
dwylo a hôl yr hoelion.

Ond,
mae deuawd yn y dwylo hyn,
mae eto bâr ar bared,
Crist eilwaith wedi'i hoelio,
a'r golau a'i gysgod
yn chwarae y gêm.

Wrth ddringo o'r cwpan hwn o gwm,
mae cysgodion y gorffennol,
y gwreiddiau o grefydd,
yn goleuo a mwytho fy myd.

# Merched y Wawr
# Y Felin

Daeth casgliad bach cyffyrddus o aelodau'r gangen a'u ffrindiau i gloncian yn rhydd dros baned o de a phice ar y maen ac i ddathlu ein Nawdd Sant Dewi.



Noson Frethyn Cartre anffurfiol oedd hon. Yn wir doedd neb yn sicr pa adloniant fyddai'n ein disgwyl ond daeth talentau gwirfoddol merched y gangen i'r wyneb gan greu rhaglen safonol, amrywiol a hwylus dros ben. Rhaid enwi un: Rhiannon Alun a agorodd y noson yn ei modd dihafal ei hun. Adroddodd 'Y Tangnefeddwyr' gan Waldo a gwir ei gair pan soniodd ein bod i gyd yn gyfarwydd â chlywed corau yn canu'r geiriau hyn ond faint ohonom sydd yn wir wedi oedi trostynt a'u styried yn fanwl. Cawasant eu hysgrifennu pan oedd Abertawe'n fflam a dyma ni heddiw eto mewn cyfnod peryglus a'r geiriau hyn mor addas ac amserol.

Cawsom ganu gwerin gwych a chasgliad o limrigau doniol i'n goglais hyd chwerthin a stori ryfeddol o ddigri am yr hen arferiad o enwi meibion y teulu ar ôl eu tadau a'r cymhlethdodau mae hynny'n ei achosi. I orffen, cawsom ddeuawd i'n cynghori ni ferched ifanc (!) i beidio â phriodi hen ŵr am resymau penodol a chlir iawn. Roedd y gân hon yn ymylu at fod yn goch! Dim ond ymylu cofiwch, a bu llawer iawn o chwerthin. Dyna beth oedd noson dda!

Bob mis ar y drydedd nos Iau, bydd rhywbeth i'ch difyrru gan Gangen y Felin yn Festri Capel y Methodistiad yn yr Eglwys Newydd. Os hoffech alw i mewn neu ddod yn aelod, cewch groeso twymgalon. Cysylltwch ag Eiry : eiry.davies@hotmail.co.uk neu 07855666242



# Côr Caerdydd

**Canu dros Heddwch wedi Pandemig**

Wedi dwy flynedd o ymarfer yn ein cartrefi ar Zoom, yn yr awyr agored ar deras stadiwm ac yn ein mygydau mewn ystafell ymarfer oer, daeth cyfle o'r diwedd i Gôr Caerdydd fynd yn ôl i'r neuadd gyngerdd. Yn ôl i'r 'arferol' fel y byddai rhywun wedi ei dybio ond doedd dim byd yn arferol am yr amgylchiadau ar bnawn Sul Mawrth 13eg yn Neuadd Dewi Sant.

Mae Côr Caerdydd, sy'n dathlu ei ben-blwydd yn 30 oed eleni, wedi perfformio Offeren Heddwch Syr Karl Jenkins, *The Armed Man* dan faton yr arweinydd nifer o weithiau ac mewn lleoliadau amrywiol fel Cadeirlan Tŷ Ddewi, Neuadd Albert Llundain, yn Cluj yn Rwmania ac fel rhan o gôr enfawr rhyngwladol yn Berlin. Ond feddyliodd neb y byddai'r perfformiad y tro hwn mor amserol.

Cafodd y gwaith ei gomisiynu'n wreiddiol ar gyfer y mileniwm ac esbonia'r cyfansoddwr fod rhyfel Kosovo yn mynd rhagddo pan oedd yn dechrau llunio'r Offeren, ac i ddioddefwyr y gwrthdaro hwnnw y mae'r *Armed Man* wedi'i chyflwyno. Cyhoeddwyd CD o'r gwaith ar 10 Medi 2001, ddiwrnod cyn y gyflafan yn Efrog Newydd. Wrth gyflwyno'r gyngerdd ddiweddaraf yng Nghaerdydd, esboniodd Syr Karl mai'r tro diwethaf iddo arwain cyngerdd o'r fath oedd cyn y pandemig, a hynny ym Moscow. Roedd yn cyflwyno'r gyngerdd hon felly i ddioddefwyr Wcráin.



Roeddem ni fel côr wedi ail-gydio yn y gwaith wrth i Rwsia feddiannu'r wlad, ac roedd dod i'r ymarfer ar ôl gwylio adroddiadau newyddion am yr erchyllterau yn brofiad ingol, a ninnau fel pawb siŵr o fod yn teimlo mor ddiymadferth. Felly roedd canu geiriau gobeithiol Tennyson *'Ring out the thousand wars of old, Ring in the thousand years of peace'* ar ddiwedd y gyngerdd yn teimlo'n rhywbeth cadarnhaol i'w wneud.

Ond yn ymarferol, aed ati i drefnu casgliad yn Neuadd Dewi Sant ar y cyd â Chymorth Cristnogol gyda chymorth aelodau o gapel y Tabernacl, ar gyfer Apêl Ddyngarol Wcráin DEC Cymru. Codwyd dros £2,575, a fydd yn nes at bum mil o bunnau gydag arian cyfatebol gan y Llywodraeth.

Does ond gobeithio y byddwn mewn gwell byd y tro nesaf y byddwn yn canu'r Offeren Heddwch.


*Elin Cadifor*

*Mae Côr Caerdydd yn ymarfer bob nos Fercher yn Eglwys Wesley, Ffordd Ddwyreiniol y Bont-faen. Mae croeso i aelodau newydd.*

# Ysgol Plasmawr

Mae wedi bod yn gyfnod prysur yn yr ysgol yn ddiweddar a mae wedi bod yn hyfryd gweld bwrlwm ysgol arferol yn ail-gychwyn wrth i ni ddechrau dod i arfer â byw gyda Covid.

Hoffwn ddiolch i'r staff sydd yn cynnig llu o weithgareddau allgyrsiol; i'r disgyblion sydd wedi cyfranogi yn y gweithgareddau hyn ac i rieni am fod yn yrrwyr tacsi pan fo angen. Mae cyfranogi mewn gweithgareddau allgyrsiol yn ffordd wych i ddisgyblion ymarfer eu sgiliau iaith llafar Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol a hwyl. Mae'n galluogi disgyblion i ennyn hyder yn eu sgiliau iaith mewn hinsawdd gefnogol.



Iestyn Ellis

Diolch i'r adran Gerdd am drefnu cystadleuaeth Cerddor Ifanc Plamawr yn ddiweddar a llongyfarchiadau i Aidan Dorrington a Iestyn Ellis ar ddod yn fuddugol yn y gystadlaeuaeth iau a hŷn.

Llongyfarchiadau i dimau pêl droed merched a bechgyn Blwyddyn 8 ar gyrraedd rowndiau cyn-derfynol cwpan Cymru eleni. Maent wedi cyrraedd y 4 ysgol olaf yn genedlaethol a dymunwn yn dda iddynt wrth iddynt ymdrechu i gyrraedd y rownd derfynol.





Pleser oedd gweld yr holl luniau ar gyfrif trydar yr ysgol, @ysgolplasmawr, o'n dawnswyr a fu'n cystadlu mewn cystadleuaeth ddawns cenedlaethol. Mae'n anhygoel meddwl bod 67 o ddisgyblion wedi mwynhau cynrychioli'r ysgol trwy ddawns.

Llongyfarchiadau aruthrol i Katy Knoyle (Bl 13) sydd wedi ennill cystadleuaeth Peirianneg Cenedlaethol EESW am ei phroject ar gynaladwyedd ar y cyd gyda chwmni ARUP.

Rydym yn falch iawn o Ffred Hayes (Bl 11) wnaeth gyflwyno araith i Senedd Ieuenctid Cymru ar bwysigrwydd addysgu disgyblion am faterion LHDTC+ ac i Nia Fajeyisan (Bl 11) wnaeth gyfrannu at gynhadledd #FelMerch, Urdd Gobaith Cymru.

Llongyfarchiadau i Daniel Watts (BL 11) ar gael ei ddewis i garfan pêl droed Cymru dan 17 oed. Bydd Dan yn teithio i chwarae yn Slovenia cyn bo hir. Llongyfrachiadau hefyd i Caio Brewster (Bl 9) sydd wedi ei ddewis i garfan criced dwyrain Cymru dan 14 oed ar gyfer y tymor i ddod. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt.



Caio Brewster

Buom yn dathlu diwrnod rhyngwladol merched yn ystod ein gwasanaethau. Trefnwyd y gwasanaeth gan grwp 'Newid Ffem' yr ysgol sydd yn codi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb i ferched ymhob agwedd o gymdeithas.

Diolch yn fawr iawn i bawb am eu haelioni tuag at ymgyrch elusennol y Groes Goch yn eu gwaith o gefnogi ffoaduriaid o'r Wcráin. Casglwyd £2,300 trwy gronfa'r ysgol.

*John Hayes (Prifathro)*

## Merched y Wawr Bro Radur

Ddydd Iau, 17 Mawrth daeth y gangen ynghyd i gymdeithasu dros goffi a theisen yng Nghlwb Golff Radur. Dyma'r tro cyntaf i'r gangen gyfafod wyneb yn wyneb ers cyn Covid. Daeth criw hwyliog ynghyd a chafwyd orig bleserus yng nghwmni hen ffrindiau.




**Llun: Shirley Williams**

# Merched y Wawr Caerdydd

A hithau yn ddiwrnod rhyngwladol y merched, roedd ein meddyliau ni i gyd efo'n chwiorydd yn yr Wcráin a'r rhai ar ffo o'r wlad. Amserol felly oedd i ni gael cwmni'r newyddiadurwraig Bethan Rhys Roberts, sydd ei hun wedi gweithio mewn amgylchiadau rhyfel ac erchylltra ledled y byd. Clywsom hanesion dirdynnol o sefyllfaoedd rhyfel a newyn a'r amgylchiadau heriol sydd yn wynebu newyddiadurwyr sydd yn ceisio dod â'r wybodaeth hynny i ni.

Atgoffodd ni o bwysigrwydd newyddiaduriaeth ffeithiol a'r angen i wirio pob elfen er mwyn osgoi newyddion ffug - her fawr mewn cyfnod ble mae cyfathrebu drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn bell-gyrhaeddol a sydyn, hyd yn oed o ganol rhyfel. Pwysleisiodd pa mor gyflym a hyblyg mae'n rhaid gweithio i ddod â stori i'r sgrîn, a'r cyfan yn waith tîm. I ddangos hynny cawsom y cyfle i brofi y broses o greu a darlledu stori newyddion yn y fan a'r lle gyda Dyfed y dyn camera.




Roedd y ferch o Fangor yn amlwg yn newyddiadurwaig hyd fer ei hesgyrn wrth iddi ddangos i ni y cylchgrawn greodd hi yn blentyn naw oed er mwyn sicrhau bod newyddion y teulu yn cyrraedd pawb yn ei theulu estynedig ledled Cymru!! Mae hi bellach yn un o'n newyddiadurwyr disgleiriaf, yn wyneb a llais cyfarwydd ond, er hynny, yn hael ei hamser yn ei chymuned ac yn mentora newyddiadurwyr newydd. Roedd hon yn noson i'w chofio!

## Neges o Ddiolch i Bobl Cymru Apêl Wcráin

Mae'r ymateb i Apêl Ddyngarol Wcráin y *Disasters Emergency Committee* (DEC Cymru) wedi bod yn ysbrydoledig.  O fewn pythefnos, mae mwy nag £8.5 miliwn wedi'i godi yma yng Nghymru, tra bod cyfanswm y DU bellach dros £175 miliwn. Mae'r ymateb twymgalon hwn yn brawf o'r gefnogaeth sydd i'r bobl yr effeithiwyd arnynt gan y gwrthdaro. Pan ddechreuodd y llif o ddelweddau trallodus lenwi ein sgriniau, nid troi llygaid dall ddewisodd bobl ei wneud; ond gweithredu. Rydym am gymryd y cyfle hwn i ddweud diolch yn fawr.

Derbyniwyd cyfraniadau ariannol o bob cwr o'r wlad. Ddaeth roddion o arian poced, casgliadau o foreau coffi a sêls pobi, ac o wylnosau undod. Mae eglwysi, clybiau chwaraeon, ysgolion, gweithleoedd, a chorau i gyd wedi chwarae eu rhan. Mae busnesau bach a mawr wedi cefnogi drwy gyfrannu'n ariannol neu rannu ein neges. Rhaid inni hefyd ddiolch i'n harweinwyr gwleidyddol am gefnogi'r apêl, i Lywodraeth Cymru am eu rhodd o £4 miliwn, ac i Lywodraeth y DU am ddyblu'r £25 miliwn gyntaf a gawsom gan y cyhoedd. Yn wir, dyma Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang ar waith.

Mae elusennau DEC a'u holl bartneriaid lleol bellach yn ymateb i'r anghenion mwyaf brys yn Wcráin a'r gwledydd cyfagos. Mae eich rhoddion yn darparu hanfodion fel bwyd, dŵr, lloches, gofal yn sgil trawma a gofal iechyd i bobl a'u bywydau wedi'u chwalu. Rydych chi'n helpu darparu cymorth i deuluoedd sy wedi ffoi gyda'r peth nesaf at ddim, a hefyd yn cefnogi gwaith o fewn dinasoedd Wcráin gyda'r rhai nad oedd modd iddynt ffoi. Mae'r swm anhygoel hwn o arian yn golygu y bydd hefyd modd inni barhau i ymateb a bod yn hyblyg wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Mae'r dinistr i'r isadeiledd hanfodol – megis ysbytai ac ysgolion, yn brawf poenus o effeithiau hir dymor y gwrthdaro hwn. Mae teuluoedd wedi colli popeth. Mae bywoliaethau wedi diflannu dros nos. Plant bach wedi colli eu diniweidrwydd. Yn ogystal â darparu cymorth brys ar hyn o bryd, bydd eich rhoddion yn cael eu defnyddio i gefnogi'r rhai sydd yn parhau i ddioddef o ganlyniad i'r gwrthdaro yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

Diolch i chi am ymddiried ynddom ni, ac yn ein gwaith. Mae dyfodol Wcráin yn ansicr, ac rydym yn deall maint y dasg enfawr sydd o'n blaenau. Ein haddewid ni yw y byddwn yn gwario'r arian hwn mewn modd cyfrifol gan barhau i gael ein harwain gan anghenion mwyaf brys y rhai sy wedi'u heffeithio gan y gwrthdaro. Ers bron i 60 mlynedd, mewn cyfnodau o argyfwng, mae'r DEC wedi dod â phrif elusennau dyngarol y DU ynghyd i helpu pobl mewn sefyllfaoedd bywyd neu farwolaeth. Mae eich cefnogaeth yn ein grymuso i weithio gyda'n gilydd i achub, amddiffyn ac adfer bywydau. Gyda'ch cefnogaeth barhaus, nid oes gennym unrhyw fwriad o stopio nawr.

*Ar draws y DU, mae gan DEC 15 o bartneriaid elusennol. Mae gan chwech o'r elusennau hyn bresenoldeb yma yng Nghymru.

Elusennau DEC yng Nghymru*
Melanie Simmonds, Achub y Plant yng Nghymru Mari McNeill, Cymorth Cristnogol Cymru Gill Peace, Y Groes Goch Brydeinig Therese Warwick, CAFOD Sarah Rees, Oxfam Cymru Cynan Llwyd - Tearfund

# Siaradwyr Cymraeg Newydd



## Cofio Mair Garnon

## Gwilym Dafydd

Shwmae unwaith eto? Rhaid i fi roi gair ar bapur y tro hwn oherwydd mae hi bron yn amser anfon colofn ymlaen i olygydd y mis. Fel arfer rydw i'n gwahodd rhai ohonoch i ysgrifennu paragraff ond aeth hi'n rhy ddiweddar y tro hwn! Gobeithio eich bod wedi mwynhau darllen gair gan David Thomas, Dysgwr y Flwyddyn, Deiniol Carter a Janet Tabor yn rhifyn mis Chwefror. Rhaid i fi ymddiheurio i Deiniol achos gwnes i ei alw yn Daniel yn y rhifyn diwethaf. Er Daniel oedd e yn yr hen ddyddiau cyn newid ei enw i Deiniol.

**Cofio Mair Garnon**

Nid yn aml y clywir newyddion am dri pherson enwog yn marw ar yr un diwrnod. Ond dyna ddigwyddodd ar ddydd Gwener, 4 Mawrth. Dim ond 52 oed oedd y cricedwr enwog o Awstralia, Shane Warne.

Yna cyd-ddigwyddiad oedd bod dau berson enwog o Orllewin Cymru hefyd wedi ein gadael sef Dai Jones Llanilar a fy modryb Mair Garnon James gynt o Landudoch ger Aberteifi.

Gan bod yr angladd yng nghapel Blaenwaun ger pentref Llandudoch ar y bore Sadwrn, 12 Mawrth, dechrau am 11 o'r gloch, awgrymodd Eirian ein bod yn teithio I'r gorllewin ar y dydd Gwener. Felly aeth pedwar ohonom yn ein car ni sef Gwen a Megan fy chwiorydd ac arhoson ni am noson yn Y Llew Du, Aberteifi. Yno wedi bwyta pysgod a sglodion mewn caffi cyfagos, Pendref os cofiaf yr enw yn gywir, gwylion ni ymdrech Cymru i guro Ffrainc yn y gêm rygbi nôl yn Y Llew Du!



*Y Parchg J Clement Davies a Mair Garnon*

Des i ar draws un neu ddau o bobl nad oeddent yn gwybod bod Anti Mair yn perthyn i fi. Dyma'r esboniad: roedd mam Mair sef Polly (Mary Anne) yn chwaer i fy Nhaid, Parch. J Clement Davies, Castellnewydd Emlyn.

Mae'r hanes i gyd yn hunangofiant diddorol Modryb Mair sef *Ody'r Teid Yn Mynd Mas*? (Gwasg Gomer 2013). Mae'n debyg taw Mair oedd y fenyw gyntaf i arwain Noson Lawen ar S4C. Diddorol nodi yma bod fy Nhaid a enwais uchod wedi marw ar 2 Tachwedd 1982 sef 24 awr wedi lansio'r Sianel newydd ar y cyntaf o fis Tachwedd.

Rydych wedi darllen nifer o jôcs Huw James yn y golofn hon yn ystod y blynyddoedd diweddar. Wel, y tro hwn, wrth gofio am fywyd a gwaith llawn amrywiaeth Anti Mair, 1928-2022, beth am roi blas i chi o ambell jôc ganddi fel maen nhw i'w gweld yn ei hunangofiant difyr:

'Fe roddodd y wraig 'co y gorau i chwarae golff gan ei bod yn methu â bwrw'r bêl. Nawr mae hi wedi prynu car newydd ac mae'n bwrw popeth!'

Jac: Ga i wy, os gwelwch yn dda?

Gweinyddes: Ar dost?

Jac: Olreit, os nad oes platiau 'da chi.

Athro: Pa lythyren sydd ar ôl A?

Plentyn: Y lleill i gyd, Miss.

Athro: Beth allwch chi ddweud wrtha i am ffermwyr y ddeunawfed ganrif?

Plentyn: Ma nhw i gyd wedi marw.

Athro: Os ydych chi'n torri dau afal a dwy bersen yn ddeg darn, beth sydd gyda chi?

Plentyn: Salad ffrwythe.

## Cyfarfod Blynyddol *Y Dinesydd*

Cynhelir cyfarfod blynyddol *Y Dinesydd* eleni ar nos Iau, 9 Mehefin am 7 o'r gloch ar Zoom.

Dyma gylfe gwych i chi ddysgu mwy am ein papur bro, a'i hynt a'i helynt dros y flwyddyn ddiwethaf. Bydd cyfle hefyd i chi allu mynegi eich barn am gynnwys a diwyg y papur, cynnig syniadau ynglyn â sut y gallwn ei wella a'i wneud yn fwy cynhwysol. Bydd cyfle hefyd i godi unrhyw fater arall yn ymwneud â'r papur.

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu i'r cyfarfod.

I gael y linc e-bostiwch eirianagwilym@gmail.com

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*



**Yr Athro E. Wyn James**

**Bwrlwm yn y Barri: D. Arthen Evans ym Mhwerdy'r Gymraeg** (Rhan 1)

Tyfodd y Barri fel madarchen yn ystod dau ddegawd olaf y 19eg ganrif. Hyd at yr 1880au, cymdogaeth o ychydig gannoedd o bobl, a'r rheini'n byw yn wasgaredig mewn ffermdai a thyddynnod a phentrefi bychain, oedd yr ardal lle y saif tref bresennol y Barri. Daeth y trobwynt mawr ar 14 Tachwedd 1884 pan dorrwyd tywarchen gyntaf dociau'r Barri. Agorwyd y doc cyntaf yn swyddogol ar 18 Gorffennaf 1889, ac yna ail ddoc yn 1898.

Menter oedd hon o dan arweiniad David Davies (1818–90), Llandinam, yn fwyaf arbennig – neu 'Davies yr Ocean', fel y'i gelwid, ar ôl enw ei gwmni, yr 'Ocean Colleries Company', a weithredai'n bennaf yng Nghwm Rhondda. Y bwriad oedd cystadlu â dociau Caerdydd, a oedd dan reolaeth Ardalydd Bute, ac erbyn 1913 roedd y Barri wedi trechu Caerdydd o drwch blewyn a dod yn brif borthladd y byd ar gyfer allforio glo. Erbyn hynny roedd poblogaeth y Barri wedi tyfu o tua 500 yn 1880 i tua 35,000.

'Cosmopolitan' yw'r gair a ddefnyddir yn aml i ddisgrifio'r Barri a ddaeth i fod yn sgil dyfodiad y dociau. Nid yw hynny'n annisgwyl o gofio mai porthladd ydoedd a bod pobl wedi heidio yno wrth y miloedd o bob cyfeiriad. Ond mae'n werth cofio, er bod *canran* y siaradwyr Cymraeg yn y Barri yn fach iawn erbyn dechrau'r 20fed ganrif o gymharu â'r cyfnod cyn y diwydiannu mawr, fod *nifer* y siaradwyr Cymraeg yn uwch o lawer nag yn y cyfnod cyn agor y dociau oherwydd y twf enfawr yn y boblogaeth. Tua 12% oedd canran y siaradwyr Cymraeg yn y Barri erbyn 1911, ond cynrychiolai hynny tua 3,500 o bobl, er mai prin iawn oedd y rhai uniaith Gymraeg erbyn hynny a'r Saesneg bellach yn *lingua franca* pobl y dref.



***Ben Evans (1854—1918)***

Yr her fawr yn y Barri erbyn dechrau'r 20fed ganrif, fel yn nwyrain Morgannwg a Gwent yn gyffredinol, oedd trosglwyddo'r Gymraeg i'r genhedlaeth iau yn wyneb y llifeiriant Saesneg. Cawn enghraifft drawiadol o hynny yn achos bachgen a aned yn y Barri ym mis Medi 1912 i deulu Cymraeg blaenllaw yn y dref. Gwynfor Richard Evans oedd ei enw, ac fe fyddai'n dod maes o law yn un o ffigurau amlycaf bywyd Cymru, yn Llywydd Plaid Cymru rhwng 1945 ac 1981 a'r un a etholwyd yn aelod seneddol cyntaf y blaid honno yn San Steffan yn 1966.

Fel llawer o'r siaradwyr Cymraeg a symudodd i'r Barri yng nghyfnod y twf mawr, roedd gwreiddiau teulu Gwynfor Evans ar y ddwy ochr yng ngorllewin Cymru. Ganed tad-cu Gwynfor, y Parchedig Benjamin Evans, yn 1854 yn Felindre, ym mhlwyf Llangyfelach yng ngorllewin sir Forgannwg. Derbyniodd beth o'i addysg yn Llangadog, hanner ffordd rhwng Llandeilo a Llanymddyfri yn sir Gaerfyrddin, cyn mynd i athrofa'r Annibynwyr yn Aberhonddu yn 1877, gan fynd wedyn yn weinidog i Felincryddan (Castell-nedd) yn 1880, ac yna i Lanelli yn 1888, cyn symud i'r Barri yn 1899 i fod yn weinidog eglwys y Tabernacl, un o gapeli Cymraeg cryfaf y dref. Yn 1882 priododd ferch o Langadog, Elizabeth James, a pharhaodd cysylltiadau'r teulu yn y Barri â Llangadog i lawr trwy'r cenedlaethau, gyda Gwynfor Evans ei hun yn byw yno am flynyddoedd lawer.

Bu cryn lewyrch ar weinidogaeth Ben Evans. Dywedir amdano ei fod yn 'ŵr o gywirdeb calon a chydwybod […] a phregethwr rhagorol […] trefnydd a gweithiwr heb ei fath'. Erbyn iddo adael Melincryddan, roedd aelodaeth Siloh, ei eglwys yno, wedi codi o 99 i 250. Yn Llanelli, wedyn, cododd aelodaeth ei eglwys yn Lloyd Street o 125 i dros 400 yn ystod ei gyfnod yno; ac am gyfnod Ben Evans yn y Barri, dywed ei ŵyr, Gwynfor Evans, y 'byddai'n rhaid bod yn y cwrdd hwyr [yn y Tabernacl] chwarter awr cyn pryd i gael sedd'. Ond bu'n rhaid iddo ymddeol o'i ofalaeth yn y Tabernacl ym mis Awst 1916 am resymau iechyd, a bu farw ym mis Mehefin 1918 yn 64 oed, pan oedd Gwynfor yn bum mlwydd oed.

Roedd Ben Evans yn frwd iawn dros y Gymraeg a thros hunanlywodraeth i Gymru. Un o aelodau Tabernacl y Barri a gydweithiai'n agos â Ben Evans i hyrwyddo'r Gymraeg a hunaniaeth Gymreig yn y Barri ac yn genedlaethol oedd D. Arthen Evans (1878–1936); ac meddai Arthen amdano adeg ei farw: 'Ni wasanaethodd neb Gymru yn well nag y gwasanaethodd efe hi. […] Yr oedd efe yn arweinydd wrth natur ac yn ymladdwr cywir dros iawnderau Cymru, Cymro, a Chymraeg.'

Bu Ben Evans yn aelod amlwg iawn o gymdeithas Cymrodorion y Barri a ffurfiwyd yn 1906. Ceisiodd ei orau i gael lle teilwng i'r Gymraeg yn ysgolion y dref; ac apeliai ef a diaconiaid capel y Tabernacl yn daer ar i siaradwyr Cymraeg y Barri drosglwyddo'r iaith i'w plant ar yr aelwyd.

Ond nid tasg rwydd mo honno, fel y gwelwn yn hanes rhai o aelodau ffyddlon y Tabernacl a breswyliai yn 'Y Goedwig', rhif 24 Somerset Road, Y Barri. 'Y Goedwig' oedd cartref Dan a Catherine Evans, mab a merch-yng-

nghyfraith y Parchedig Ben Evans. Priododd Dan Evans a Catherine Richard yn 1911, a Gwynfor oedd y cyntaf o'u tri phlentyn. Cymysgedd o Gymraeg a Saesneg a glywid ar yr aelwyd yng nghyfnod cynnar eu bywyd priodasol, ac yn blentyn bach fe fedrai Gwynfor y Gymraeg. Ond daeth tro mawr ar fyd yn 1917, ac yntau'n bum mlwydd oed.

Siopwyr oedd Dan a Catherine Evans – a bu siop fawr adrannol y teulu, 'Siop Dan Evans', yn rhan amlwg o fywyd y Barri am ddegawdau lawer, nes iddi gau yn 2006. 'Pan oeddwn yn grwt', meddai Gwynfor yn ei hunangofiant, *Bywyd Cymro* (1982), 'roedd [oriau gwaith fy rhieni] yn enbyd o hir.' Roedd ganddynt forwyn o Bontyberem i warchod y plant pan oedd Gwynfor yn fach, ond parodd ei hymadawiad ddaeargryn ieithyddol. Meddai Gwynfor: 'Profodd yn anodd [i'm rhieni] gael Cymraes o ran iaith i ofalu am y tŷ. Am flynyddoedd, gwraig ifanc o Barrow-In-Furness a wnâi'r gwaith, a gan hynny, Saesneg oedd iaith y cartref.'

Saesneg hefyd oedd iaith yr ysgol, ac er mai capel Cymraeg oedd y Tabernacl yn swyddogol, cymysg iawn oedd y sefyllfa ieithyddol yno. 'Pan oeddwn yn grwt yn y Tabernacl,' meddai Gwynfor, 'roedd plant y genhedlaeth gyntaf [o siaradwyr Cymraeg a lifai i'r Barri wrth i'r dref dyfu], a oedd erbyn hynny yn eu canol oed, yn deall Cymraeg ond heb fedru ei siarad.' Ac am ei genhedlaeth ef ei hun, dywed Gwynfor: 'Doedd dim un bachgen, a dim ond un ferch […], yn deall ac yn siarad yr iaith.'

Mae'n werth ychwanegu fod teulu Gwynfor wedi chwarae rhan bwysig mewn 'daeargryn ieithyddol' arall yn nes ymlaen. Er enghraifft, yng nghartref Dan a Catherine Evans y cynhaliwyd y cyfarfod yn Chwefror 1951 a arweiniodd at sefydlu ysgol feithrin Gymraeg yn y Barri. Ond canlyniad yr holl ddylanwadau Saesneg ar y Gwynfor Evans ifanc oedd peri i hynny o Gymraeg a oedd ganddo'n blentyn bach gilio i gilfachau ei gof. Llifo dros ei ben a wnaeth y Gymraeg o hynny allan, wrth ei chlywed yn y capel ac mewn mannau eraill, heb iddo ddeall fawr ddim, nes iddo gael 'tröedigaeth' at Gymru a'r Gymraeg yn 1929, yn 17 oed, a mynd ati i ailddysgu'r iaith.

Ffoi rhag y Gymraeg oedd ei hanes cyn hynny. Roedd D. Arthen Evans yn byw yn yr un stryd â Gwynfor a'i deulu. Fe fynnai Arthen 'siarad Cymraeg ar bob achlysur posibl', meddai Gwynfor, gan ychwanegu: 'Mae'n gywilydd gen i ddweud fy mod yn symud yn gyflym i gyfeiriad arall pan welwn Arthen yn y pellter, ond nid dianc rhagddo ef a wnawn yn gymaint â ffoi rhag ei iaith.'

Ond er yr holl Seisnigo – 'Diflanasai'r iaith yn y Barri yn gynt nag y gwnaeth ymhlith Cymry America!', meddai Gwynfor – yr hyn sy'n drawiadol yw bod nifer o drigolion y dref wedi chwarae rôl allweddol yn genedlaethol yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif yn yr ymgyrch i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r hunaniaeth Gymreig, a neb yn fwy nag Arthen Evans. Ac at hynny y trown y tro nesaf, os byw ac iach.

---

Ad/lib Cymru

Ffurfiwyd Cwmni Ad/Lib Cymru gan ddau ffrind sy'n byw a bod yn ardal Caerdydd – yr actorion Phyl Harries a Ieuan Rhys. Roedd ganddynt gynlluniau mawr ar gyfer y cwmni ond yna daeth y pandemig a rhoi taw ar bopeth. Ond yn ddiweddar mae Phyl a Ieu a'r cwmni wedi bod yn brysur iawn yn trefnu nosweithiau ar hyd a lled y wlad gan gynnwys ambell i noson dros y ffin yn Lloegr hefyd. Ym Mis Ebrill fe fydd y cwmni yn dod a'r sioe boblogaidd '*An Evening With Shane Williams'* i Gaerdydd am y tro cynta gan alw yn Theatr Y Sherman. "Sioe siarad yw'r noson" medd Ieuan Rhys " Fel oedd yr hen 'chat show' arfer bod ar y teledu"

Ond yn ogystal â bod Phyl a Ieu yn holi arwr y maes rygbi – Shane Williams – am ei fagwraeth yn Rhydaman a'i fywyd ar ac oddi ar y cae fe fydd cyfle i'r gynulleidfa holi Shane hefyd."Dyma fformat ein sioeau" meddau Phyl "ac fe fyddwn yn dilyn y fformat yma gyda'n sioeau gyda'r Brodyr Gregory (Theatr Y Glowyr – Rhydaman) ,James Hook ac Eddie 'The Eagle' Edwards (Theatr Y Coliseum,Aberdar) ym mis Mai hefyd." Mae 'An Evening with Shane Williams' yn noson wych I ddilynwyr y bel hirgron ac yn gyfle i ddod i adnabod un o gewri'r gêm tamed bach yn well.



# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

Cyhoeddodd y Canghellor, Rishi Sunak, Datganiad y Gwanwyn ar 23ain o Fawrth 2022. Dyma rai o'r prif gyhoeddiadau ar gyfer unigolion:

- Y prif bennawd yw bod disgwyl i chwyddiant godi i 7.4% eleni (ar gyfartaledd), gan gyrraedd 9% erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn golygu bydd prisiau nwyddau yn parhau i godi am weddill y flwyddyn.
- Mae'r trothwy cyn talu Yswiriant Gwladol yn codi o £9,568 i £12,570. Ond, mae cyfraddau Yswiriant Gwladol (YG) yn codi 1.25c i bob punt o enillion o fis Ebrill.

  Mae hyn yn golygu byddwch chi ar eich ennill os ydych yn ennill hyd at tua £34,000. Byddwch yn arbed tua £180 o YG os ydych yn ennill £20,000 tra bydd unigolyn sy'n ennill £50,000 yn talu YG ychwanegol o tua £200 y flwyddyn.
- Bydd budddaliadau (e.e. Credyd Cynhwysol) a'r pensiwn gwladol yn codi 3.1% o fis Ebrill. Mae'r cynnydd yma tipyn yn llai na lefelau chwyddiant, felly bydd unigolion ar eu colled o ystyried effaith chwyddiant.
- Bydd cymorth ar gael i'r mwyaf difreintiedig er mwyn dygymod â chostau ynni trwy gronfa penodol (*Household Support Fund*) a weinyddir gan awdurdodau lleol.
- Os bydd meini prawf ynglŷn â'r economi yn cael eu bodloni yn 2024, bydd cyfradd sylfaenol treth incwm yn gostwng o 20% i 19% (amser a ddengys os caiff hyn ei wireddu).

**Cwestiynau Huw ac Aled:** *Dwi wedi darllen ar-lein bod llawer o enwogion wedi lleihau eu treth etifeddiaeth trwy ddefnyddio amryw o gynlluniau. Allwch chi ddweud ychydig wrthyf am y gwahanol opsiynau sydd ar gael? (Rydym yn barod wedi trafod buddsoddiadau treth-effeithiol a Gweithred Amrywio, neu 'Deed of Variation')*

Y bwlch treth "Ronnie Corbett". Gwnaeth y digrifwr, tra yr oedd mewn iechyd da, leihau ei eiddo a rhoi symiau sylweddol i'w blant oedd yn oedolion. Wrth oroesi 7 mlynedd ar ôl y rhoddion, doedd y rhoddion ddim yn drethadwy o dan ganllawiau treth etifeddiaeth.

Gallwch hefyd roi symiau misol yn ddi-dreth o'ch incwm os yw'r rhoddion yn fforddiadwy o'ch incwm misol. Sicrhewch fod gennych mwy na digon o arian i gwrdd â'ch anghenion eich hun.

*Am fwy o fanylion cysylltwch gyda ni trwy: huwaledaccounts.com neu 029 2069 4525*

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar Nos Lun 21 Mawrth 2022 cawsom ni sgwrs ddiddorol iawn gan Awen Iorwerth sy'n llawfeddyg ysgwyddau yn Ysbyty Morgannwg ac yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Caerdydd ar y testun 'Ysgwydd wrth Ysgwydd'. Dechreuodd Awen trwy nodi pa mor gyffredin yw problemau ysgwydd gyda dros 1% o oedolion dros 45 mlwydd oed yn dioddef poen ysgwydd. Yn ôl Awen, mae yr ysgwydd yn gymal llawer mwy difyr na'r pen-lin er enghraifft. Mae yn gymal pelen a chwpan, neu efallai bod pelen a soser yn well disgrifiad, gan nad yw y cwpan, y Glenoid, yn ddwfn iawn. Mae pedwar cyhyr yn ffurfio haen i gadw asgwrn y fraich yn ei le. Enw Awen am yr haen yma yw y dorch droi neu Rotator Cuff yn Saesneg.



Esboniodd Awen sut mae y cyhyrau yn cydbwyso i ddal y fraich yn ei lle, a bod pobl sy'n gwneud gwaith corfforol caled yn cael ychydig iawn o broblemau ysgwydd, lle mae'r ganran o weithwyr desg yn dipyn uwch. Trafododd Awen ddau fath o broblem ysgwydd, yn gyntaf trafododd y crydcymalau Glenohumeral lle mae cartilag y cymal yn treulio. Mae modd trin hyn mewn sawl ffordd, ond os yw y problemau yn parhau, yna mae newid yr ysgwydd yn gyfan gwbl yn gallu bod yn driniaeth lwyddiannus iawn.

Mae problemau gyda'r dorch droi yn fwy cyffredin na phroblemau cartilag, ac mae gwendid neu rwyg yn y dorch droi yn gallu meddwl nad yw asgwrn y fraich yn eistedd yn iawn yn y cymal ac felly yn gallu rhwbio yn erbyn esgyrn eraill. Eto mae nifer o driniaethau, ond os oes poen mawr, yna gellir rhoi pen newydd ar asgwrn y fraich, ond os oes traul ar y pen newydd mae hi'n anodd ail wneud y driniaeth yma. Os yn llwyddiannus, bydd yr ysgwydd yn ddi-boen ond gyda ychydig yn llai o symudiad. Ond i osgoi trafferth gyda'r ysgwydd, yna ymarfer cyson yw yr ateb!

*Rhys Morris*

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

## Morgannwg yn gobeithio adeiladu ar lwyddiant y llynedd

Rwy'n ysgrifennu'r erthygl hon ar ddiwedd wythnos fythgofiadwy i chwaraeon yng Nghymru yn dilyn buddugoliaeth gampus tim pêl droed Cymru yn erbyn Awstria. Roedd yn bleser bod yn Stadiwm Dinas Caerdydd i weld y gêm a bydd goliau Gareth Bale yn byw yn y cof am gryn amser. Mae dal gobaith felly cyrraedd Cwpan y Byd yn Qatar ond bydd yn rhaid aros i chwarae yn erbyn yr Alban neu Wcráin.



Wrth i'r haul dywynnu yn ystod wythnos olaf mis Mawrth, mae golygon yn troi at ddechrau'r tymor criced. Yn ystod misoedd y gaeaf bu digon o griced ar y teledu i fodloni dilynwyr y gamp yn enwedig cyfres y Lludw wrth i Loegr golli'n drwm yn erbyn Awstralia. Yn fwy diweddar gwelwyd Lloegr yn colli'n annisgwyl mewn cyfres ddiddorol yn erbyn India'r Gorllewin.

Wrth edrych ymlaen at dymor Morgannwg, rhaid atgoffa darllenwyr *Y Dinesydd* fod y sir wedi sicrhau llwyddiant annisgwyl y tymor diwethaf wrth ennill y gystadleuaeth 50 pelawd. Beth felly yw'r gobaith am lwyddiant tebyg y tymor hwn?

Y newyddion da yw y bydd y ddau chwaraewr tramor disglair o Awstralia sef Marnus Labuschagne a Michael Neser yn dychwelyd eleni. Mae'n annhebygol y bydd y ddau ar gael am y tymor cyfan wrth ystyried y bydd disgwyl iddynt gynrychioli Awstralia a fydd yn chwarae rhai gemau yn ystod yr haf. Ond bydd eu presenoldeb, hyd yn oed am ran o'r tymor, yn sicr yn hwb i Forgannwg. Newyddion calonogol arall yw fod Morgannwg wedi llwyddo i arwyddo tri chwaraewr disglair yn ystod y gaeaf – y batwyr Sam Northeast o Hampshire ac Eddie Byrom o Wlad yr Haf ynghyd â'r Cymro James Harris o Middlesex. Braf iawn fydd croesawu James Harris yn ôl i'r sir ar ôl bron i ddegawd yn Middlesex. Prif rheswm Harris dros adael Morgannwg yn 2012 oedd i geisio chwarae i Loegr ac er na lwyddodd i wireddu ei freuddwyd i wneud hynny bu ei gyfnod yn Middlesex ar y cyfan yn un llwyddiannus.

Ddiwedd tymor diwethaf, penderfynodd Chris Cooke ildio'r awenau fel capten. Braf iawn fydd gweld y Cymro o Wrecsam, David Lloyd yn gapten eleni yn y Bencampwriaeth pedwar niwrnod a'r gystadleuaeth 20 pelawd. Bydd Kieran Carlson o'r Eglwys Newydd yn parhau'n gapten yn y gystadleuaeth 50 pelawd gan obeithio y bydd llwyddiant tebyg i un y llynedd yn y gystadleuaeth honno.

Yn ystod y gaeaf, cyhoeddodd y bowliwr Michael Hogan y byddai'n ymddeol ar ddiwedd y tymor hwn. Yn ddi-os, bydd yn cael ei ystyried yn un o'r bowlwyr gorau yn hanes y sir ac mae'n llwyr haeddu ei flwyddyn dysteb eleni.

Y gobaith eleni yw y bydd modd adeiladu ar lwyddiant y tymor diwethaf yn y gystadleuaeth 50 pelawd. Er bod y sir wedi dechrau'n addawol y llynedd yn y Bencampwriaeth pedwar niwrnod, gwelwyd y sir yn colli'r mwyafrif o gemau ar ddiwedd y tymor a bydd angen gwell cysondeb eleni. Siomedig iawn fu'r perfformiadau y llynedd yn y gystadleuaeth 20 pelawd a bydd angen gwelliant eleni. Rhaid cofio mai dyma'r gystadleuaeth sy'n denu torfeydd mawr a bydd llwyddiant gobeithio yn denu'r torfeydd i Erddi Soffia. Yn yr un modd bydd angen gwell perfformiadau gan y Tân Cymreig yn y gystadleuaeth can pelen/yr Hundred. Er mai siomedig fu perfformiadau'r tîm y llynedd, rhaid canmol yr ymdrech i hybu'r Gymraeg ar grysau ac yn ystod y gemau a gobeithio y bydd hynny'n parhau eleni.

Felly, rhaid edrych ymlaen mewn gobaith at dymor cyffrous arall o griced.




# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Efengylu**

Yn ein cyrddau gweddi yn arwain lan at y Pasg rydym wedi rhannu'n grwpiau llai er mwyn ystyried beth yw hi i fod yn dystion i'r Efengyl yn ein cymunedau. Mae'r eglwys wedi ymuno â 'Passion for Life' , sef mudiad ar draws y Deyrnas Unedig ac Iwerddon sy'n annog eglwysi i sefyll gyda'i gilydd yn y gwaith o rannu'r newyddion da am Iesu Grist. I gydfynd â'r gwaith yma mae chwe fideo Cymraeg wedi cael eu paratoi. Mae modd eu gwylio drwy ddilynm y linc yma *https://www.apassionforlife.org.uk/cymraeg/hyfforddiant-efengylu/*

**Ysgol Sul**

Bellach mae ysgol Sul y plant ac oedolion wedi ail-gychwyn ar ôl gwasanaeth y bore am 11.45.

**Ribidires**

Mae clwb y plant bach a'u gwarchadwyr, o dan ei enw newydd 'Ribidires', bellach yn cwrdd yn Eglwys Efengylaidd Llanisien CF145QD.

**Paned a Sgwrs**

Cawsom y fraint yn ddiweddar o gael dau siaradwr gwadd yn dod atom ar fore Mercher drwy gyfrwng Zoom. Gofynnwyd i'r Athro Wyn James sôn ychydig am y Tadau Methodistaidd, Daniel Rowland, Howell Harris, William Williams, Howel Davies a Peter Williams. Canolbwyntiodd Wyn ar fywyd a gwaith Daniel Rowland. Clywsom am ei droedigaeth wrth wrando ar Gruffydd Jones yn pregethu yn Llangeithio ac yntau newydd gychwyn yno fel curad. Yna clywsom am y torfeydd fyddai'n teithio i Langeithio i'w glywed yn pregethu. Byddent yn dod o bob rhan o Gymru a hynny yn arbennig ar Sul y Cymun.

Arweiniodd Ann Morgan Caerfyrddin ni i feddwl am sut y bu i Iesu Grist ymddangos i'w ddisgyblion ar ôl yr atgyfodiad gan ddweud wrthynt y byddai'n anfon yr Ysbryd Glân i'w nerthu i fod yn dystion i'r Efengyl. Atgoffodd ni o'r gwahaniaeth yn y disgyblion ar ôl i hyn ddigwydd a sut y newidiwyd criw ofnus dydd Gwener y Groglith i'r rhai oedd yn cyhoeddi'r Efengyl yn ddiofn ar ddydd y Pentecost.

Roedd yn fendith ac yn her clywed y ddau hanes.

## EBENESER

**Cinio Gŵyl Ddewi**

Ar bnawn Iau, 3ydd o Fawrth aeth criw da o tua 35 i gael cinio â'i gilydd yng Nghlwb Golff Yr Eglwysnewydd. Roedd yn gyfle da i wledda a chymdeithasu ar ôl cyfnod mor hir o fethu dod at ein gilydd oherwydd cyfyngiadau Covid. Bwyd da a chwmni da a gobeithio am gyfle buan eto i gymdeithasu â'n gilydd sydd, dyn ni'n teimlo, yn rhan allweddol o fywyd ein heglwys ar ôl cyfnod mor anodd dros y ddwy flynedd diwethaf gyda'r pandemig.

**Llongyfarchiadau i...**



...Gwilym ac Alice Jeffs ar enedigaeth mab bach, Ioan William a brawd i Nel Grace ar 11eg o Fawrth. Pob bendith a chariad iddyn nhw gan deulu Ebeneser.

,,,Hywel Davies, mab Wyn a Nora Davies, a Camilla Ling o Gaerfaddon ar eu dyweddïad ganol fis Mawrth. Pob dymuniad da iddyn nhw i'r dyfodol.

.... Lowri Tudur ar ennill ei gradd – yn swyddogol - mewn Gwyddor Cymdeithaseg ym Mhrifysgol UCL Llundain mewn seremoni yng Nghanolfan XL.

**Afghanistan ac Wcráin**

Mae'r sefyllfa yn y ddwy wlad hyn wedi bod yn echrydus yn yr wythnosau diwethaf ac mae ein gweddïau wedi bod gyda'r bobl a'r mudiadau elusennol sydd wedi bod yn estyn cymorth. Braint i ni oedd gallu anfon cyfraniad ariannol o dros £1750 i DEC yn dilyn casgliadau arbennig diweddar. Os nad ydych chi wedi cael cyfle i gyfrannu ewch Dec.org..uk gan mai nhw sy'n cydlynu taliadau mudiadau elusennol.

**Colli aelod**

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth ddiweddar Mair Thomas, Penylan. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r plant, Nest a Huw a'r teuluoedd estynedig.

## EGLWYS Y CRWYS

Bu rhai o'n haelodau mewn gwahanol ysbytai dros y cyfnod diweddar. Dymunwn yn dda iddynt oll.

Dymunwn yn dda i Mrs. Anne Innes sydd wedi symud i Gartref Heol Don, Yr Eglwys Newydd. Da deall ei bod wedi setlo'n dda yno. Gobeithio y bydd modd i'n helodau fynd i ymweld â hi yn fuan.

Mae Catrin Kemp a'r teulu wedi symud i fyw i Seland Newydd ac yn ymgartrefu yn Auckland. Pob dymuniad da iddynt. Bydd Brian a Margaret yn gweld eisiau Macs a Gwenno yn fawr.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Gŵyl Dewi yr Ysgol Sul gyda'r plant a'r ieuenctid yn gwneud eu gwaith yn rhagorol. Diolch i rieni a'r athrawon am eu gwaith ac i Hannah Thomas am baratoi'r gwasanaeth.

Yn ystod y Gwasanaeth Gŵyl Dewi cyflwynwyd tysteb ar ran yr Eglwys i Bob Roberts ar achlysur ei ymddeoliad fel Ysgrifennydd Cyffredinol yn dilyn pum mlynedd ar hugain o lafur di-flino. Talwyd teyrnged a gwerthfawrogiad iddo gan y Gweinidog a Thomas Williams. Pob dymuniad da iddo ef a Margaret i'r dyfodol.

Cynhaliwyd Cinio Gŵyl Dewi y Gymdeithas yng Nghlwb Golff Caerdydd a hyfryd oedd cael cwmni Elin Jones, Llywydd y Senedd, fel ein Siaradwraig Wâdd. Cafwyd prynhawn ardderchog. Diolch i Cerian Angharad am y trefniadau.

Yn ystod mis Mai gwasanaethir gan y Gweinidog ar y Sul cyntaf a'r trydydd Sul. Byddwn yn croesawu yr Athro Ddr. John Tudno Williams ar Fai yr 8fed; a'r Parch Megan Williams ar y 23ain. Ar y 29ain fe gynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn yr oedfa foreol ac arweinir yr oedfa hwyrol gan Peredur Owen Griffiths. Croeso cynnes i bawb i ymuno yn ein gwasanaethau.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Dyna braf oedd cael cwrdd ar gyfer Offeren Gŵyl Dewi eleni gan groesawu'n cynulleidfa arferol a'n cyfeillion o nifer o gapeli ac eglwysi'r ddinas. Y Tad Peter Davies oedd yn dathlu ac yn pregethu - doedd y Parch Ddiacon Elfed Jones ddim yn gallu bod yno oherwydd salwch. Yr organydd oedd David Leggett ac mae bob amser yn braf ei groesawu i gyfeilio i'r Offeren. Dyma'r cyfle cyntaf i ni ganu yn yr eglwys heb orfod gwisgo mwgwd felly roedd gwefr arbennig yng nghanu'r Gloria a phawb yn ymuno yn y cytgan: *Gogoniant i Dduw yn y goruchaf!*

Dydyn ni ddim wedi ail-ddechrau'r arfer o gael paned ar ôl y gwasanaeth hyd yn hyn, ond cawsom ddanteithion i'w mwynhau a chyfle am sgwrs yng nghefn yr eglwys cyn ymadael. Cafwyd lliw ychwanegol ymhlith y gynulleidfa gydag un o'r brodyr yn ysblennydd yn ei wisg o frethyn Cymreig.

Dyma ni nawr yn nhymor Y Grawys a'r argyfwng yn Wcrain yn achosi i ni ddwysáu ein gweddïau am heddwch. Edrychwn ymlaen at ymuno eto gydag aelodau CECC yng ngwasanaeth Dydd Gwener y Groglith.

Mawrth 27ain: 4 30pm Offeren Eglwys Teilo Sant
Ebrill 3ydd: 11am Offeren ar y we ar Zoom
Ebrill 24ain: 4.30pm Offeren Eglwys Teilo Sant
Mai 1af: 4.30pm Offeren ar y we ar youtube

Cysylltwch â: carys@caerdelyn.com i dderbyn y ddolen.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon ac Ysgol Sul:**
**Mis Ebrill 2022:**

3 Ebrill – Parchedig Gethin Rhys
10 Ebrill – Parchedig Lona Roberts
17 Ebrill – Parchedig Dafydd Andrew Jones
24 Ebrill - Delwyn Sion / Cyflwyniad o *Teilwng yw'r Oen* [am 5:00 p.m.]

Ar Fawrth y 1af 2020, cyflwynwyd *Geiriau Olaf Dewi*, gwaith a gyfansoddwyd gan Eilir Owen Griffiths, gan Gôr y Capel.

A does dim angen atgoffa neb pam bod gofod o ddwy flynedd a mwy wedi mynd heibio rhwng y naill berfformiad a'r llall!

Ond ymlaen â'r ymarferion, gan ddiolch i'r Arweinydd, Eilir, ac i'r cantorion oll (a'r cyfeilydd), am eu brwdfrydedd tra'n paratoi!

Tydi canu ddim yn ddieithr ym Methlehem, wrth gwrs, ac, er iddi ddiflannu bellach, bu'r Gymanfa Ganu a'i lle anrhydeddus yno am ganrif a mwy o flynyddoedd.

Diddorol oedd cael cip ar adroddiad yn y *Tyst* yn cyfeirio at Gymanfa Ganu dydd Gwener y Groglith 1909 [rhifyn 15/05/1909].

Bryd hynny 'roedd capeli Annibynwyr y cylch – Y Groeswen, Nantgarw, Glandwr a Bronllwyn, a Bethlehem, yn uno i ganu.

Cyfarfodydd yn y bore, y prynhawn a gyda'r nos – a barn pawb am y canu oedd "*na chafwyd mo'i well ers cychwyniad y Gymanfa*".

A bu mwy o ganu ar ddydd Mawrth y Pasg, a Chymanfa Ddirwestol gyda chôr yn agos i 300 o blant yn bresennol!

Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at waith i "*harddu'r capel*" yn cael ei gwblhau– a'r gwariant o £600 at "*bwrpas mor effeithiol fel y gellid meddwl mai capel newydd sydd yma.*"

*"Y mae arwyddion bywyd ymhob rhan o'r gwaith.*"

Mae gwaith "harddu'r capel" ymlaen ar hyn o bryd, a bydd Cymanfa Ganu ym mis Mehefin 2023 fel rhan o ddathliadau 150 yr adeilad presennol.

Gobeithiwn ninnau ail-adrodd *"bod arwyddion bywyd ymhob rhan o'r gwaith*?

"Pasg hapus bawb"

## EGLWYS MINNY STREET

www.minny street.org @MinnyStreet
Gweinidog: Y Parch. Owain Llŷr Evans

Yn sgil y cyhoeddiad ddiwedd mis Mawrth gan y Llywodraeth yn dileu mwyafrif y cyfyngiadau cyfreithiol a ddaeth i rym yn sgil Covid -19, bydd Eglwys Minny Street yn dechrau symud ymlaen yn ofalus. Wrth wneud, bydd yr eglwys yn tanlinellu argymhellion y Llywodraeth, sef bod pawb (oni bai eu bod wedi'u heithrio) yn parhau i wisgo gorchudd wyneb dan do, yn diheintio ac yn ystyried aelodau eraill. Bydd y cyfle i ymuno ag un oedfa bob Sul drwy gyfrwng *Zoom* yn parhau. Yn yr un modd, bydd cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal yn y festri, hefyd ar gael o hyd drwy *Zoom.*

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Edrychwn ymlaen yn fawr at arweiniad ein Gweinidog yn oedfaon 3, 10 ac 17 Ebrill. Cynhelir oedfa gymun fore Sul, 3 Ebrill ac eto fore Sul, 17 Ebrill (yn oedfa deulu Sul y Pasg). Bydd oedfa 10 Ebrill yn oedfa gynnar (9.30). Byddwn yn croesawu Y Parchedig Carwyn Siddall i arwain yr addoliad fore Sul, 24 Ebrill. Yn ystod oedfaon 3 a 24 Ebrill y bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod.

**Gweithgarwch y mis**

Cynhelir sgwrs yn y festri ac ar *Zoom* o dan y pennawd 'Nos Iau Cablyd' am 19:00 nos Iau, 14 Ebrill. Bydd PIMS yn cyfarfod am 19:00 nos Iau, 7 Ebrill ac eto nos Fawrth 26 Ebrill.

## EGLWYS DEWI SANT

**Bedyddiadau.**

Dydd Sul, 20fed Mawrth, bedyddiwyd Benjamin Lamb, mab Angharad a Jonathan Lamb.

**Dydd Gweddi'r Byd**

Diolch i Margaret Hughes a Delyth Davies am gynyrchioli EDS yn y gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-Eang yn Nhabernacl yr Ais ddydd Gwener, Mawth 4ydd.

**Gweddi dros Wcrâin**

Mae'r esgob yn galw ar blwyfolion yr esgobaeth i weddïo dros y sefyllfa yn yr Wcrâin bob nos am 8.00yh tra pery'r rhyfela.

**Cwmplin a Choco**

Bob nos Fercher yn ystod cyfnod y Garawys cynhelir gwasanaeth o Gwmplin â myfyrdod byr am 8.00yh dros Zoom.

**Gwasanaeth Sefydlu Ardal Gweinidogaeth Canol y Ddinas**

Cafwyd cynrychiolaeth deilwng iawn o EDS i'r gwasanaeth hwn ddydd Sul, Mawrth 13eg, yn Eglwys St Marc, Gabalfa. 'Roedd yn wasanaeth arbennig, dan ofal yr esgob, i sefydlu'r Ardal ac i ail-drwyddedu'r offeiriaid, y darllenwyr lleyg a'r gweithwyr lleyg fydd yn gwasanaethu ynddi. Wyn Mears, warden y ficer, fydd cynrychiolydd EDS ar ei Chyngor.

**Banc Bwyd Caerdydd**

Yn ystod y Garawys mae'r eglwys yn casglu nwyddau ar gyfer gwaith y banc bwyd.

**Coffi a Chlonc**

Cynhaliwyd Coffi a Chlonc i'r dysgwyr fore Sadwrn, Mawrth 19eg, Oherwydd y Pasg ni chynhelir un ym mis Ebrill.

## TABERNACL, YR AIS

Y Weinidogaeth: Newyddion da a ddaeth i'n bro. Yn dilyn cwrdd eglwys ddiwedd Mis Chwefror, estynnwyd galwad gan yr Eglwys at y Parchedig. Ddr. Rosa Hunt i fod yn weinidog arnom yn y Tabernacl. Mewn ateb i'r bleidlais unfrydol, ymatebodd hithau'n gadarnhaol i'r alwad. Bydd yn dechrau ei gweinidogaeth gyda ni ym mis Medi. Bydd hefyd yn parhau gyda'i swydd ran amser fel cyd- brifathro Coleg y Bedyddwyr yng Nghaerdydd.

Llongyfarchiadau i Anwen Williams sydd wedi ennill lle yng ngharfan pêl droed merched dan 16 Ysgolion Cymru ar gyfer 3 gêm yn ystod yr haf.

Yn ddiweddar fe fu farw dau o'n haelodau – Paul Morgan a Mary Thomas. Roedd cyfraniad y ddau i'r Tabernacl dros gyfnod hir yn arbennig ac amhrisiadwy. Cydymdeimlwn yn ddidwyll gyda'r ddau deulu yn eu colled.

Eleni fe fwynhawyd ein Cinio Gwyl Dewi Blynyddol yn y Riverside Cantonese. Daeth aelodau'r Clwb Darllen at ei gilydd ddiwedd mis Mawrth. Y llyfr a ddewiswyd y tro hwn oedd 'Starter for Ten' gan David Nicholls. Cafwyd dau Organathon llewyrchus cyn y gêmau rhyngwladol rhwng Cymru a Ffrainc, ac yna'r Eidal. Fe godwyd y swm anrhydeddus o £825 tuag at drigolion yr Wcrain.

Trwy gydol mis Mawrth cynhaliwyd gwasanaethau bob bore a nos Sul. Mawr yw ein diolch i'r plant ifanc ar ddechrau'r mis ac yna Rhys ab Owen, Huw Roberts, Marc John Williams, y Parchg Jill Hayley Harris a'r Gwir Barchedig Barry Morgan am eu gwasanaeth gwerthfawr yn ystod mis Mawrth.

Mae'r aelodau'r Gymdeithas Pnawn Iau yn dal yn brysur, yn enwedig gyda'u prosiectau gwau. Eisoes trosglwyddwyd nifer dda o betryalau wedi'u gwau i Ganolfan y Glowyr, Caerffili, i greu blancedi i elusen. Mae nhw hefyd yn gwau tedis bach i'w rhannu mewn wardiau plant.

Cynhelir Cyngerdd gan HUW CHISWELL yn y Taberncl , nos Iau, Ebrill 7fed am 7.30 yh - £10/£5 i blant ysgol – ar gael wrth y drws

Yn dilyn sawl oedfa foreol, penderfynwyd y bydde dod at ein gilydd o flaen y capel i gyd-ganu emynau. Casglwyd arian sylweddol tuag at achos yr Wcráin.

## BETHEL, PENARTH

Wedi cyfnod o fisoedd pan fuom yn pryderu dros sawl un oedd yn absennol o'n plith oherwydd anhwylderau amrywiol, hyfrydwch pur oedd eu croesawu'n ôl y mis Mawrth, sef, Hazel, Rhodri a Menna. Da gweld hefyd fod Eifion wedi derbyn triniaeth effeithiol. Ond, rhag ofn i ni droi'n rhy hyderus, cawsom wybod bod eraill o'n cymdeithas wedi'u taro'n annisgwyl. Anfonwn ein cariad atynt.

Bu'r mis diwethaf yn cynnwys achlysuron hapus. Un oedd dathliad penblwydd 80 oed Eirlys; mewn ymateb parod i barchu ei dymuniad i nodi'r achlysur mewn Oedfa Gymun trefnwyd i Gill gyflwyno cacen i Eirlys. Yr achlysur arall o lawenydd mawr oedd bedydd baban, Rhys Tomos Dafydd Allen. Cawsom ganddo ambell 'ymyrraeth' yn ystod y bregeth, ond roedd i weld yn ddedwydd ym mreichiau Kevin, ein gweinidog, wrth i'r ddau fynd ymhlith y gynulleidfa yn rhannu cyfarchion. Bendith arno.

Ar Sul, Mawrth 13, bu Kevin yn ein cyfeirio at fersiwn Luc o ran o'r Bregeth ar y Mynydd, Pennod 6, Adnodau 27-38. Tynnwyd sylw at y gorchymyn i garu gelynion, gan gydnabod mai haws dweud na gwenud yw hanes llawer ohonom, yn unigolion, grwpiau a gwledydd.

Ar Sul, Mawrth 20 cyfeiriwyd myfyrdod y gweinidog at ddwy wedd yn ymwneud â chariad, Carwch eich gilydd (1 Ioan 3, 11-18) a Cariad yw Duw (1 Ioan 4, 7-21). Fe'n heriwyd ni i ystyried beth sy'n bwysig yn ein bywydau ac yna i feddwl am drigolion Wcrên sy wedi colli popeth.

Sianmeinir oedd yn llywio'n haddoliad ar Fawrth 27. Seiliwyd ei myfyrdodau ar ddarnau o Rufeiniaid 12 a Ioan 13, gyda phwyslais ar adnabod a gweithredu cariad a nodi effaith ddwy-ffordd y profiad o garu rhwng un ac un arall. Sian hefyd oedd yn tywys ein hepilog rhithiol yn y prynhawn, pan soniodd am ei phrofiad o fod yn un o grŵp cerddoriaeth yn canu a thrafod mewn carchar i ferched yn Lloegr. Diolchwn yn fawr i Sian, sy'n un ohonom, am ei gwasanaeth heddiw, nid yn unig am ei chenadwri myfyrgar ond hefyd am ofalu am gyfarpar technegol y ddwy oedfa.

## BETHEL, RHIWBEINA

Ar Sul cyntaf Mawrth roedd y gwasanaeth yng ngofal yr aelodau ac rydym yn diolch i bob un fuodd mor barod i gymryd rhan. Ar Fawrth 13 cawsom gyfle i groesawu i'r pulpud Mr Marc John Williams ac ar Fawrth 20 y Parchg R. Alun Evans.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth un o'n haelodau ffyddlon a hoffus, Pam Davies. Byddwn yn gweld ei heisiau yn fawr a chydymdeimlwn yn ddwys a'i mab a'i chwaer a'r teulu oll.

Rydym hefyd yn estyn ein cydymdeimlad at Sian Francis a'i theulu wedi iddi golli ei thad yn ddiweddar. Bu farw'n dawel yn ei gartref yn Aberpennar.

Ar Fawrth 21 roedd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina yn cynnal noson yng nghwmni'r delynores dalentog Bethan Semmens a chafwyd perfformiad gwych ganddi.

Yn ystod y cyfnod hwn mae ein Gweinidog y Parchg Evan Morgan yn mynd ar deithiau cerdded noddedig er budd Cymorth Cristnogol. Rydym fel capel yn ei gefnogi yn ei ymdrech i gyflawni 70 km cyn diwedd y Gwanwyn.

Ar Fawrth 27 cynhelir bedydd Alffi Jac, mab Angharad a Gavin Traylor ac ŵyr Carol a Tony Davies. Dymunwn bob llawenydd iddynt.

***Miss Eirlys Davies, Bethel, Penarth yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.***



# Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys

Dathlwyd ein Nawdd Sant eleni wythnos yn hwyrach na Mawrth y cyntaf ac yn y prynhawn nid min nos fel yr arfer yn y gorffennol. Ond wedi dweud hynny dim ond dilyn patrwm y flwyddyn a fabwysiadwyd gan y Gymdeithas sef cynnal ein cyfarfodydd yn y pnawn. Arbrawf sydd wedi bod yn dra llwyddiannus gyda'r niferoedd yn mynychu yn codi ac yn mwynhau cyfarfod yng ngolau dydd yn hytrach na thywyllwch min nos.

Cynhaliwyd yr achlysur yn y Seashore Grill, Sili, ar brynhawn heulog, gwanwynaidd y seithfed o Fawrth. Tyrrodd cannoedd yno, wel a dweud y gwir tua chwedeg, i wledda a chodi llwncdestun i'r "Dyfrwr". Roedd yr arlwy yn wych a diolch i staff y Seashore Grill am eu hawddgarwch wrth weini a pharatoi. I ddechrau'r parti cafwyd croeso gan y Cadeirydd, a darllenwyd cyflwyniad Colin Williams i ddatganiad diweddaraf Côr Meibion Taf o "Y Tangnefeddwyr", Waldo, i atgoffa pawb ein bod ni yn byw mewn byd lle na fo'r "pethau bychain" yn cael eu cysidro bellach. Cyflwynwyd bendith ar ein dathlu gan y Parchedig Kevin Davies ac ymlaen â'r joio.

I'n diddanu daeth Phyl a Mags Harries. Hyfryd oedd gweld Mags yno yn cyfeilio a cheisio cadw trefn ar Phyl



a dymunwn oll wellhad buan iddi wedi cyfnod caled. Cafwyd orig werth ei nodi gan y ddau. Nid sgwrs dydd Gŵyl Dewïaidd gawson ni ond diddanwch pur. Wrth gwrs, roedd hanes Phyl yn rhan annatod o'i berorasiwn ond wedi ei fritho gan storïau am ei garwriaeth â Mags, caneuon, darlleniadau o *Dan y Wenallt* a *Matilda*, Obeia Rodrick, a hanesion am droeon ei yrfa ar lwyfan ac ym myd y ffilm. Llawn haedda'r gymeradwyaeth a diolch iddo fe a Mags am eu cwmni. Cynhelir cyfarfod nesa'r Gymdeithas am 2.00yp ar y 4ydd o Ebrill a thro'r Parchg Kevin Davies fydd i godi hwyl yn ei ffordd ddihafal ei hun. Mae croeso i bawb i'n cyfarfodydd yn Llyfrgell Dinas Powys.

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Yng nghyfarfod cyntaf mis Mawrth, y darlledwr ac awdur cyfarwydd, Alun Wyn Bevan, fu'n diddori'r aelodau. Adnabyddir ef fel un a anwyd a'i fagu yn ardal Brynaman. Edmygai pawb ei wybodaeth amrywiol anhygoel ar gymaint o wahanol bynciau – o fyd y bêl a chwaraeon eraill, gwahanol wledydd a adnabu drwy lawer taith fel sylwebydd a dyfarnwr rygbi, a byd natur gyda Chymdeithas Edward Llwyd. Gofynnodd i'w wrandawyr i nodi beth yw nodweddion a gofynion person wrth ymgymeryd â gwahanol yrfaoedd. Pwysleisiodd fod angen diddordebau amrywiol, bod yn gydwybodol, ymbaratoad trwyadl a gweledigaeth eang i gyrraedd y nod. Rhoddodd esiamplau o ystod eang o wahanol enwogion a edmygai ac a ddysgodd amdanynt, a hefyd rhai a gyfarfu ar ei deithiau niferus. Roedd yn amlwg bod ei brofiadau gwahanol wedi rhoi pleser mawr iddo mewn amrywiol feysydd ac iddo drosglwyddo'r rhain i lawer o Gymry dros flynyddoedd ei yrfa lwyddiannus.





Ar Fawrth 18fed, y Parchedig Peter Dewi Richards oedd gwestai'r aelwyd. Ei destun oedd "Hanesion difyr a diddorol ei weinidogaeth". Fe'i magwyd a'i addysgu yn ardal Felinfoel, Llanelli. yn aelod yn Eglwys Adulam, cyn mynd yn fyfyriwr diwinyddol yn y Brifysgol a Choleg y Bedyddwyr i'w baratoi fel gweinidog yr Efengyl yng Nghwm Gwaun, Sir Benfro ac yna yn Bethesda, Glanaman. Yna, fe'i penodwyd yn Ysgrifennydd Cymdeithas y Beibl a chael profiadau diddorol ar achlysuron fel cyhoeddi'r Beibl Cymraeg Newydd yn 1985. Yna daeth yn Ysgriennydd Undeb y Bedyddwyr a chael cyfle i gynghori eglwysi amrywiol dros Gymru ac i "fugeilio'r bugeiliaid". Wedi dychwelyd i'r weinidogaeth bu'n weinidog Capel Castle Street, Llundain a bod yn rhan i dystio sefydlu Eglwys Canol Llundain. Diolchwyd iddo am ei straeon difyr a diddorol gan y Llywydd, Gwenda Morgan, a dymunwyd pob hapusrwydd iddo wedi iddo ymddeol i Gaerdydd yn 2013 ac fel aelod ffyddlon yr Aelwyd.

Noder rhaglen ar Zoom am 2 o'r gloch - Ebrill 1af - Y Parchedig Gwilym Wyn Roberts; Ebrill 22ain – Wyn Melville Jones, Aberystwyth; Mai 6ed – Huw Euron, Caerffili. Ar ddydd Mercher, Mai 18fed bydd yr Aelwyd yn cychwyn cyfarfod wyneb yn wyneb yn Eglwys Bethel, Rhiwbeina am 10.30 y.b. fel arbrawf am y dyfodol.

# Murmur y Meic
## Atgofion am y BBC Llandaf



### Hannah Roberts

Mae'r B.B.C. yn dathlu ei ben blwydd yn 100 oed eleni. Fe'i ganed yn 1922, a bûm i'n rhan fach ohono. Ganed un o'i blant, sef B. B. C. Llandâf yn nechre'r 60au, ond nawr:-

"Adeilad y tair llythyren
bellach wedi mynd yn hen"

Wrth gered i lawr i bentre' Llandâf ddiwedd Ionawr, a phasio gweddillion adeilad yr hen BH, sylwes bod un darn anferth ar ôl, fel dant ryw gawr, - fel Carreg Bica yn y cenol. Daeth deinosor o JCB a malu'r cwbwl, - a malu mwy na morter!!!!

Sefais yno a syllu.

Gweld yr holl awyr a'r gofod, a'm "dychmyg yn drên", nôl i'r 60au , a BH ar fin cael ei adeiladu!! Wetyn, hedfannodd y meddwl nôl ryw ddeg-ar-ucen o flynydde pan etho i drw'r drwse am y tro cynta, i witho yn yr Adran Gyflwyno, - a'r straeon yn dod i gof.

Cofio ishte yn y stiwdio un bore yn yr wythdegau,a chael betydd tân!! Roedd y rhaglen *Merched yn Benna* ar yr awyr, raglen o'dd yn para awr, a finne'n fishi yn paratoi lincs ar gyfer y raglen nesa', pan agorws y drws yn siten, a da'th y byd a'i wraig miwn i'r stiwdio, tua phump person, ac un yn dwad ato i gweud - yn Sisneg:- "Now Hannah, you know the format, the Queen Mother has died" - a mas a nhw mor ddisymwth a ddethon nhw.

Panic!! O'dd 'da fi ddim syniad beth i neud, a 'ma ddechre hwsu te!! Yna, llaish yn y nglust - y technegydd,-- yn gweud 'tho i i hôl tâp o'r drar o'r enw "Canterbury Bells". O'dd rhaid whare hwnnw a darllen y bwletins fel o'n nhw'n dod miwn. "Reit" feddyles i, ma M yn Benna wedi stopo nawr er mwyn i hyn g'meryd lle. Whares i'r tâp a darllen bwletin ryw ddwy waith bob chwarte awr fel o'dd mwy o newyddion yn dwad miwn, a'r nerfe'n rhacs jibydêrs!!

O'n i yn stiwdio Radio Cymru, a dyma llaish yn y nghlust i o stiwdio Radio Wales drws nesa, o'dd y cyflwynydd 'na, pwr dab newydd ddechre 'da ni, o'dd 'da fe laish darlledu dwfn, ond yn y panig, a'th e lan tair octef!!!!

Ma'r drws yn acor 'to, a rhywun o Radio Cymru'n do miwn, a medde hwnnw - "Nawr Hannah, ti'n gwpod beth i neud, ma'r Frenhines wedi marw"!! a masa fe. Hold on, feddyles, pwy sy 'di'n gatel ni y Fam ne'r Ferch? Gofyn i'r technegydd, hwnnw'n cwni ei ysgwydde mewn anwyboteth,

Ynghenol y ddrama ma, dyma glywed "Cut"! "Be sy'n bod NAWR?" feddyles. Wel - beth O'DD yn bod o'dd ca'l gwpod taw PRACTIS o'dd y cwbwl – rhag ofn!!!!

O'dd rhaglen Merched yn Benna yn mynd mla'n fel arfer, rwpeth o'r tu mewn o'dd hyn!!

Wel-y bore 'ny, fyddech chi ddim 'di rhoi ceinog am y mywyd i!!!!! a o'dd e'n dicwdd trwy Bryden gyfan! Felly o'dd galwyni o hwsu 'di dicwdd y bore 'ny.

Betydd tân yn wir!

Da boch am nawr

Murmur a mwy y tro nesa.



## Dydd Gweddi'r Byd 2022

Yn Y Tabernacl, Yr Ais y cynhaliwyd oedfa Dydd Gweddi'r Byd, Caerdydd eleni. Llywyddwyd yr oedfa gan Helen Jones, Cadeirydd Cylch Caerdydd a chymerwyd rhan yn yr oedfa gan chwiorydd o Bethel, Rhiwbeina, Eglwys Dewi Sant a Salem, Treganna. Croesawodd Helen ddarpar weinidog Y Tabernacl sef Y Parchedig Ddr Rosa Hunt a thorrodd cymeradwyaeth ddigymell drwy'r gynulleidfa.

Braf oedd cael ei chwmni yn yr oedfa gan ei bod yn un o'r tîm a fu'n paratoi'r llenyddiaeth. Merched Cristnogol Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon fu'n ysgrifennu'r sgript eleni ar y testun, *'Myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer'*. Mae'r adnod yn dod o Jeremeia ac mae'n llawn gobaith a dyna oedd thema ganolog yr oedfa ac fel symbol o obaith defnyddiwyd canhwyllau a hadau. Dosbarthwyd hadau blodau haul i bawb o'r gynulleidfa. Gobeithiwn y bydd pawb yn eu plannu ac edrychwn ymlaen i dderbyn lluniau o'r blodau haul yn tyfu yn ein gerddi yn ystod misoedd yr hâf. Tybed fyddai modd trefnu i gael *collage* o'r lluniau yn y *'Dinesydd'* er mwyn cadw momentwm Dydd Gweddi'r Byd i fynd? Cyd-ddigwyddiad mai'r blodyn haul yw blodyn yr Wcráin ac fe offrymwyd gweddi arbennig dros drigolion y wlad yn ystod y cyfnod erchyll yma yn eu hanes.

Llinos Metcalf oedd wrth yr organ a bu tîm o chwiorydd Y Tabernacl yn paratoi paned a theisen i tua hanner cant. Roedd hi'n hyfryd gweld y festri'n llawn a phawb yn mwynhau cymdeithasu ar ôl cyfnod mor llwm. Cafwyd cynrychiolaeth arbennig o dda o eglwysi Cymraeg y ddinas yn yr oedfa.

***Anfonwch eich lluniau o'r blodau haul atom pan fyddant yn sirioli'ch gerddi. Edrychwn ymlaen i'w cynnwys wrth i ni barhau i gofio am ddioddefwyr Wcráin.***

## Swydd Goruchwylwyr Arholiadau
## Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern

Mae Ysgol Bro Edern yn edrych am oruchwylwyr arholiadau newydd a rhai sydd eisoes â phrofiad, i ymuno â'r tim goruchwylio presennol, i weithio gyda'r Swyddog Arholiadau. Bydd gofyn i'r ymgeiswyr weinyddu, goruchwylio ac arolygu myfyrwyr sydd yn sefyll arholiadau CBAC, gan ddilyn gofynion a rheolau JCQ. Mae gwybodaeth o'r iaith Gymraeg yn hanfodol, a bydd angen i'r ymgeiswyr fod yn hyblyg i weithio yn y bore a/neu yn y prynhawn. Bydd angen i'r ymgeiswyr llwyddiannus fod yn gallu delio ag unrhyw newidiadau a sefyllfaoedd anodd gyda pharodrwydd i ddwyn sylw at y mater os ydynt yn sylwi ar unrhyw beth o'i le. Mae'r gwaith ar sail ad-hoc, yn bennaf yn ystod misoedd Tachwedd, Ionawr, Mai a Mehefin gydag ambell ddiwrnod ychwanegol yn bosibl yn ystod y flwyddyn fel y bo'r angen. Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr fod yn hyblyg, prydlon, dibynadwy, trefnus ac yn gallu trin y myfyrwyr mewn modd proffesiynol. Bydd angen i chi allu gweithio fel unigolyn yn ogystal â bod yn rhan o dîm.

**Cyflog: £10.65 yr awr.**
Dylid anfon ffurflen gais a llythyr sy'n amlinellu eich profiadau a'ch cymwysterau ar gyfer y swydd at y Rheolwr Busnes, Mrs Elena Rhisiart
**Dyddiad cau: Dydd Llun 25ain o Ebrill – 12yp**
Am wybodaeth bellach am y swydd dylid cysylltu gyda Mr Arwel Jones (Pennaeth Cynorthwyol) ar 029 2048 9445.
*Mae ffurflen gais ar gael drwy ddilyn y linc isod
https://docs.google.com/document/d/1K2gSzPgCAivhnkcnHJ08-mfOHJpZG9bd/copy
neu drwy anfon e-bost at erhisiart@ysgolbroedern.cardiff.sch.uk

## Y DIGWYDDIADUR

### Ebrill

**Iau, 7 Ebrill**
Cylch Cinio Merched Caerdydd yng Nghlwb Golff Radur am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Siaradwraig wadd: Y Farwnes Eluned Morgan. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Llywydd, Rowenna E. Thomas (07811-802845; rowennat@gmail.com).

**Iau, 7 Ebrill**
Cyngerdd gan Huw Chiswell yn y Tabernacl ar yr Ais am 7.30pm. Tocynnau ar gael wrth y drws: £10 (£5 i blant ysgol).

**Llun, 11 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. 'Tast Natur' gyda Non Rhys, yng nghapel Bethel, Rhiwbina, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jonesdilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

**Llun, 25 Ebrill**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan Ieuan Wyn Jones, y cyn-Aelod Cynulliad, ar y testun 'O'r Cyrion i'r Canol'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews rachel@mentercaerdydd.cymru).

### Mai

**Mercher, 4 Mai**
Merched y Wawr, Bro Radur. Sgwrs gan yr ymgyrchydd dros bobl anabl, Radha Nair Roberts, am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545) neu Shirley Williams (shirleywilliams642@gmail.com; 029 -2061-5243).

**Gwener, 6 Mai**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro Richard Wyn Jones ar y testun 'Pam y mae Llafur yn ennill eto ac eto ac eto yng Nghymru? Deall canrif o lwyddiant etholiadol.' Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. Os *nad* ydych yn aelod, gellwch sicrhau'r ddolen Zoom (£3) ar gyfer y cyfarfod hwn drwy gysylltu â'r Ysgrifennydd: Gwynn Matthews (ebost: m.g.derwendeg@gmail.com; ffôn: 029-2089-1802).

**Sadwrn, 14 Mai**
Datganiad Organ gan Iestyn Evans yn y Tabernacl yr Ais am 12.30pm.

**Llun, 16 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sgwrs gan Dean Powell ar y testun 'Hanes Llantrisant', yng nghapel Bethel, Rhiwbina, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

**Iau, 26 Mai**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan Sara Huws o Lyfrgell Prifysgol Caerdydd ar y testun 'Trysorau Cudd yr Hen Lyfrgell – Llyfrau Prin Caerdydd'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James. Manylion cysylltu ar dud. 2**

## Pobol y Rhigwm

Er i fi osod mesur digon penagored y 'pennill' fel dewis heblaw englyn yng nghystadleuaeth y mis hwn, dim ond tri chynnig a ddaeth i law, gwaetha'r modd. Wn i ddim a oedd gofyn yn benodol am bennill *ysgafn* yn gyfrifol am dawedogrwydd y rhigymwyr – wedi'r cyfan, mae rhai'n ei chael yn haws sgrifennu ar destun mwy dwys, a dyw materion cyfoes y funud yn bendant ddim yn cymell rhywun i wenu. Efallai y bydd y dasg nesa'n fwy tebygol o danio'r injan awenyddol. Fodd bynnag, am y tro dyma farn y mecanig am gynnyrch y tri rhigymwr a barciodd eu moduron barddol yng ngarej *Pobol y Rhigwm* y mis hwn!

O em araul amryliw – aur y maer;
Ryw Emyr Wyn ydyw,
Grisial ar chwâl yn chwilfriw –
Dyma ei gylla di-gyw.

*Il uovo di Pasqua*

*Il uovo di Pasqua* oedd yr unig gystadleuydd wnaeth roi cynnig ar englyn. Ysywaeth, dim ond un llinell gywir o gynghanedd sydd ynddo, er bod y gweddill yn ffinio ar gynghanedd, hefyd. Mae'r dechrau, 'o em' yn adleisio T. Gwynn Jones, a chware teg i'r cystadleuydd am hynny! Y paladr (sef dwy linell gynta englyn) sy'n gofyn am y mwya o waith tacluso. Dyw 'amryliw' ddim cweit yn cyfateb ag 'em araul' ('em araul' = 'm acen r diacen'; 'amryliw' = 'm r acen l diacen'). Rhwng y cyrch a'r ail linell, wedyn, 'r m acen' yw'r gyfatebiaeth sydd ei hangen tra mai 'r m r acen' a geir yn 'ryw Emyr Wyn' (hyd yn oed pe cymerir – yn gwbwl gros i'r graen – 'Emyr' wrtho'i hun fel y gair cyfatebol, mae'r gyfatebiaeth yn dal i fod yn wallus). Ma pethe'n gwella yn yr esgyll (dwy linell olaf englyn). Mae'r drydedd linell bron iawn yn gynghanedd Sain – gwaetha'r modd, os yw'r gyfatebiaeth rhwng yr 'ail air odledig' a'r gair ar ddiwedd y llinell yn un anghytbwys ddisgynedig (neu 'acen-diacen') mae'n rhaid ateb yr holl gytseiniaid o dan yr acen, yn union yr un modd ag y byddai rhywun mewn llinellau o gynganeddion Croes a Draws. Mae angen 'lfr' yn yr achos hwn, felly, sy ddim yn gyfatebiaeth hawdd o gwbwl, i fod yn deg. Gan mai cyfatebiaeth anghytbwys ddyrchafedig (neu 'diacen-acen') sy'n cwblhau'r gynghanedd Sain yn y llinell glo, mae'n dda gen i ddweud bod yr englyn yn cloi'n berffaith!

Beth i'w wneud o ymgais *Il uovo di Pasqua*, felly? Mae yma weledigaeth, yn bendant ac mae'n amlwg bod gan yr ymgeisydd hwn ddealltwriaeth greiddiol o'r gynghanedd. Wrth reswm, ni allaf wobrwyo englyn gwallus ond mae yma botensial o dan yr wyneb hefyd. Dalier ati heb os.

Yr Ŵy Pasg, ar fin deori,
Efallai heddiw, efallai yfory,
Oes yna cyw, sy'n fyw?
Neu siocled melys, brown ei liw!

*Cwm Talwg*

Mae 'na ryw ddiniweidrwydd i ymgais *Cwm Talwg* ac mae symlrwydd y mynegiant yn cydio. Mae'r disgwylgarwch annwyl yn uniongyrchol ac yn plethu potensial yr ŵy i'r dim, boed yn cuddio cyw bach neu siocled! Gwaetha'r modd mae'r drydedd linell yn gadael *Cwm Talwg* i lawr – 'oes yna *g*yw' sy'n ramadegol gywir. At hynny, mae'r llinell honno'n anghysain â gweddill y pennill – 'a oes yna gyw, sy'n fyw' fyddai'n cynnal y mydr. Ymgais dda gan feddwl creadigol.

Ŵy Pasg ddaw i' r Tsarina
Faberge'n eu llanw i'r eitha,
Ar fore'r Llun a llwy mewn llaw
Ond O!!! mae hi'n ffili 'i fita!

*No yoke*

Dyma ymgais fwya gwreiddiol y gystadleuaeth, a'r un fwya byw ei delwedd, hefyd! Dyw'r mydr ddim cweit yn taro deuddeg, gyda digon o anghydbwysedd rhwng nifer y sillafau ym mhob llinell i anesmwytho'r glust (7 sill yn y llinell gynta, 9 yn yr ail ac 8 yn y drydedd a'r bedwaredd, o gymryd bod 'i fita' yn cywasgu). Cafwyd nodyn gan y bardd: "*Ynganer Faberge yn y dull Cymrag a'r acen ar y sillaf ola ond un!*". Mae hynny'n achub rhywfaint ar yr anghydbwysedd! Hmmm, beth i'w wneud, felly? Rhaid tanlinellu fy mod i'n rhoi cryn bwyslais ar *fydryddiaeth* gywir. Mae hynny'n rhan gwbwl hanfodol o'r grefft – cofiwch ddarllen eich ymgais yn uchel ac os nad yw'n swnio'n esmwyth i'r glust, mae angen ei newid. Fodd bynnag, mae'r llithriadau mydryddol yn cael eu gwrthbwyso gan wreiddioldeb a mynegiant digri pennill sy'n llwyddo i gydio, yn y pen draw. Fe ddywedais yn fy ngholofn gynta mai ennyn *creadigrwydd* oedd un o brif amcanion y gystadleuaeth fisol hon ac yn hynny o beth – yn ogystal â chreu pennill ysgafn yng ngwir ystyr y gair – mae *No Yoke* wedi bodloni'r gofynion ac yn haeddu'r wobr y mis hwn.

*Aron Pritchard*

**Enillydd tasg Chwefror yw**
**Hannah Roberts**

**Cystadleuaeth mis Ebrill**
**Triban: Blagur**

Anfonwch eich cynigion erbyn 20 Ebrill, 2022 at:
eirianagwilym@gmail.com Gwobr: Tocyn llyfr £10.


**Cymrodorion Caerdydd**
Sefydlwyd 1885

Pam fod Llafur yn ennill
eto ac eto ac eto yng Nghymru?
Deall canrif o lwyddiant etholiadol


Cyflwyniad ar Zoom gan
**Yr Athro Richard Wyn Jones**

Nos Wener 6 Mai 7.30 y.h.

Os nad ydych yn aelod gellwch sicrhau'r ddolen Zoom
(£3) ar gyfer y cyfarfod hwn drwy gysylltu â'r
Ysgrifennydd: Gwynn Matthews.
ebost: m.g.derwendeg@gmail.com
(ffôn: 029 20891802)


*Ni chyfyngir y cyfarfod i aelodau yn unig*

## Rhif: 222




### Ar Draws
1. Y Sopranos (10)
7. Rhyferthwy heb liw, fe glywn (5)
8. Perffaith ond yn swnio fel diwrnod i'r ffals (7)
10. A fydd Mai yng nghartre'r meddygon? (6)
11. 'Ar yr ----- rhwng y ddwyblaid
    Gwnaeth gymod trwy'i offrymu'i Hun' (AG) (4)
13. Sŵn offer yn llefaru (6)
15. Cael teg wŷs i ddod i'r llety (6)
17. Gwyrddni'r dalennau (4)
18. 'O! atal rwysg ein gwamal fryd,
    A ----- ni rhag twyll y byd' (JTJ) (6)
21. Yn dal dim (7)
22. Gwneud telerau am fwrw eira (5)
23. Blodwen fach sy ferch i goginio llysiau (10)

### I Lawr
1. Cainc o'r cwmwl dyrys (5)
2. Hanes diweddar Ian, y dechreuwr (8)
3. Ofer dirnad bob yn ail cyn diwedd y flwyddyn hyd dy oes (6)
4. Yng nghadw-mi-gei ddoe mae'n meddiant (4)
5. Anlwcus cael un da ar goll mewn ffos (7)
6. Un a chroes wrth ei enw (1,9)
9. 'Gwaed y groes a ----- ----- -----
    Na welir moni eilwaith' (JW) (4,1,5)
12. Treuliais amser ag arian (8)
14. Creadur yn dod ag afal i ni (7)
16. Gweddus er yn anifail (6)
19. '----- iti, Arglwydd mawr,
    Am y sêr a golau'r wawr' (WNW) (5)
20. 'Y -----, y mawl, y parch a'r bri
    Fo byth i enw'n Harglwydd ni' (WW) (4)



**Enillydd Croesair Rhif 220**
**Tom Roberts, Rhosmeirch, Ynys Môn**

**Atebion Croesair Rhif 220**

**Ar Draws:** 7. Ac weithiau o dân 8. Adarfogi 9. Salw 10. Amnaid 12. Dyfrgi 14. Sgerti 15. Siglen 17. Epil 20. Estrones 22. William Morgan

**I Lawr:** 1. Academig 2. Geirfa 3. Athro 4. Cariadus 5. Coes 6. Dail 11. Deisebau 13. Gaenen ar 16. Gwobri 18. Prif 19. Lili 21. Teml

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Mai, 2022
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

# Cymrodorion Caerdydd

A hithau'n hanner canmlwyddiant sefydlu'r Mudiad Meithrin eleni, braf oedd cael croesawu Prif Weithredwraig y Mudiad, Dr Gwenllian Lansdown Davies, atom ddechrau Mawrth. Teitl ei chyflwyniad (ar Zoom) oedd 'Cylch o Hanner Canrif: Meithrin Miliwn'. Cawsom drawsolwg diddorol iawn o amrediad eang gwaith y Mudiad.

Sylfaen y cyfan, meddai, oedd egwyddor 'dysgu drwy chwarae'. Dyma, yn wir, yw sail polisi Llywodraeth Cymru ynglŷn ag addysg gynnar hefyd. Cyfeiriodd Gwenllian at nifer o brosiectau a gweithgareddau arloesol y Mudiad. Yn eu plith yr oedd mynd ati i ddadansoddi profiad pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig o addysg Gymraeg. Gwaith pwysig arall yw casglu profiadau rhieni o wasanaethau ar gyfer plant Awtistig.

Mae'r Mudiad yn darparu adnoddau arloesol megis rhaglen ar lein 'Dwylo'n Dweud' ar gyfer plant byddar. Comisiynwyd adnodd 'Dewch i Ddathlu' sy'n gyflwyniad addas i blant bach o draddodiadau gwahanol grefyddau'r byd. Yr hyn sy'n gwneud yr holl weithgareddau hyn yn bosibl wrth gwrs yw gwaith staff, gwirfoddolwyr a rhieni y Mudiad, a dangosodd Gwenllian fel yr oedd cyfraniad pob un o'r rhain yn cydblethu i greu mudiad deinamig. Yn sicr dyma sail gadarn wrth gyrchu at y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

Ar derfyn y cyfarfod, clywsom y newydd trist fod ein Trysorydd, Mary Thomas, wedi marw yn gynharach y diwrnod hwnnw. Yn ei deyrnged, cyfeiriodd y Llywydd, Bill Davies, at wasanaeth clodwiw Mary i'r Cymrodorion dros gyfnod maith, ac estynodd ein cydymdeimlad at Graham a'r teulu.

Gweler gyferbyn hysbyseb am gyfarfod mis Mai pan anerchir gan yr Athro Richard Wyn Jones.

## Pleserau'r Pasg a Gweithgareddau Gwyliau

Gyda'r gwanwyn ar ein gwarthau a'r Pasg yn agosáu, beth am ymuno â ni yn Neuadd Goffa Rhiwbeina, fore Mawrth, 5 Ebrill i greu trefniant blodau ar gyfer y Pasg? Ann Mears fydd wrth y llyw a'r sesiwn yn costio £20 gan gynnwys y blodau.

Aros gartref dros y Pasg ac yn chwilio am weithgareddau hwyliog i'r plant? Bydd ein Cynllun Gofal yn rhedeg yn ysgolion Treganna a Melin Gruffydd bob dydd heblaw am ddydd Gwener y Groglith a dydd Llun y Pasg. Y gost yw £28 y dydd. O weithdy celf i barti'r Pasg ac o wyddoniaeth i ffitrwydd, bydd rhywbeth at ddant pawb!

Cofiwch hefyd am ein sesiynau chwarae rhad ac am ddim, Bwrlwm!, fydd yn cael eu cynnal ledled y ddinas a Bro Morgannwg bob bore a phrynhawn heblaw am y gwyliau banc. Yn ogystal, yn dilyn llwyddiant ein darpariaeth ddiweddar ar gyfer pobl ifanc, byddwn yn cynnal mwy o sesiynau i blant hŷn dros y Pasg – o ffotograffiaeth i sglefrfyrddio! Gweler yr hysbyseb am yr holl fanylion.

Wrth edrych ymlaen at ddiwedd y mis, Ieuan Wyn Jones fydd yn gwmni i ni ar gyfer Sgwrs y Mis, nos Lun, 25 Ebrill wrth iddo drafod ei hunangofiant, *O'r Cyrion i'r Canol*. Braf yw cyhoeddi bod ein cyngherddau cymunedol, Mewn Tiwn, yn dychwelyd ym mis Mai, diolch i Live Music Now. Cynhelir y sesiynau bob bore Llun am 11.30 am bedair wythnos o 9 Mai, yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina.

Mae nifer o ddigwyddiadau pwysig i'w nodi ar y calendr dros y misoedd nesaf felly cadwch y dyddiad! Byddwn yn rhedeg teithiau bws i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru i gwrdd ag Adam yn yr Ardd (30 Mehefin); i'r Sioe Amaethyddol Frenhinol (19 Gorffennaf); i'r Eisteddfod Genedlaethol (2 Awst) ac i Ŵyl Fwyd y Fenni (17 Medi). Cewch yr holl fanylion a'r prisiau ar ein gwefan.

Yn goron ar y cyfan wrth gwrs mae'r gwyliau lleol. Ymunwch â chriw Menter Iaith Bro Morgannwg yng Ngŵyl Fach y Fro ddydd Sadwrn, 21 Mai. A byddwch yn barod am lond penwythnos o hwyl wrth i Tafwyl ddychwelyd i Gastell Caerdydd ar 18-19 Mehefin. Gyda Sŵnami, Yws Gwynedd, Gareth Bonello a Kizzy Crawford ymhlith y perfformwyr, mae'n addo bod yn benwythnos i'w gofio!

Gwefan: mentercaerdydd.cymru /
menterbromorgannwg.cymru
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
Instagram: https://www.instagram.com/
mentercaerdydd/
E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888.


# GWEITHGAREDDAU PASG

## MENTER CAERDYDD A MENTER IAITH BRO MORGANNWG

| | |
|---|---|
| Gweithdy Ffasiwn, Marchnata a Ffotograffiaeth gyda Phrifysgol De Cymru | Dydd Llun 11.04.22 14-18 oed |
| Gweithdy Ffotograffiaeth gyda Phrifysgol De Cymru | Dydd Mercher 13.04.22 10-14 oed |
| Gweithdy Graffiti - Canolfan Gymunedol Mynachdy | Dyddiad i'w gadarnhau. |
| Gweithdy Sglefrfyrddio gyda 'Spit and Sawdust' | Dyddiad i'w gadarnhau. |

### Cynllun Gofal Plant

Yn Ysgol Treganna ac Ysgol Melin Gruffydd
Dydd Llun 11.04 - Dydd Gwener 22.04
08:30 - 17:30 ♥ £28 y dydd
*Bob dydd heblaw am ddydd Gwener y Groglith a dydd Llun y Pasg

### Cynllun Chwarae BWRLWM!

Sesiynau bore a phrynhawn mewn lleoliadau amrywiol yng Nghaerdydd a'r Fro.
Dosbarth derbyn i flwyddyn 6.
AM DDIM!
*Bob dydd heblaw am ddydd Gwener y Groglith a dydd Llun y Pasg

www.mentercaerdydd.cymru
www.menterbromorgannwg.cymru

MC: Rhif Elusen: 1098606. Rhif Cwmni: 4576565
MIBM - Rhif Elusen: 1179555. Rhif Cwmni: 08867706


## Cerdd Rydd Fuddugol Hannah Roberts yn Eisteddfod Llanfihangel

**Cyrraedd**

Ar Nadolig cynta'r rhyfel
cyrhaeddodd y cyfarchion y seld.

Gwelodd hon
y cilio i'r cysgod,
y rhedeg rhag yr "air-raid".

Clywodd fomiau'r gyflafan
â'i chlustiau lliwgar,

Teimlodd gryndod y tŷ
pan ddisgynnodd un wrth ei ystlys

Syllodd ar symylrwydd yr Ŵyl,
y dogni
a'r dod trwodd

Bellach,
â thangnefedd o'i chwmpas.
mae'n cwato yn y cwpwrdd.

Nawr,
daw allan bob 'Dolig
i harddu'r seld.

Eleni,
daeth mas eto,
a "rhyfel" arall wedi cyrraedd.